

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Diwylliant ar waith: astudiaethau gwerin o Gymru

Gwyndaf, Robin

Award date:
2001

Awarding institution:
University of Wales, Bangor

[Link to publication](#)

General rights

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy


If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 22. Nov. 2024

**DIWYLLIANT AR WAITH: ASTUDIAETHAU
GWERIN O GYMRU**

**CULTURE IN ACTION: STUDIES IN WELSH
ETHNOLOGY**

ROBIN GWYNDAF



PhD

Bangor



2001

CYNNWYS / CONTENTS

	CYFROL / VOLUME 3	Tud.
10.	Cynhysgaeth Cynheilydd Traddodiad o Gymru: Lewis T Evans (1882-1975)	743
	The Repertoire of a Welsh Tradition-Bearer: Lewis T Evans (1882-1975)	
i.	Cyflwyniad	745
ii	Crynodeb o Dystiolaeth Lafar Lewis T Evans ar Dapiau Sain AWC	760
iii.	Mynegai (yn ôl Pwnc, Person a Lle) i'r Tapiau Sain	832
iv.	Tales of a Welsh Tradition-Bearer	856
v.	Memory in Action: Narration, Communication and the Repertoire of a Passive Tradition-Bearer	1022

LLYFRYDDIAETH

BIBLIOGRAPHY

i.	Cyffredinol	1050
ii.	Cymru	1077
iii.	Cyhoeddiadau'r awdur, 1962-2000	1103

CYNHYSGAETH CYNHEILYDD
TRADDODIAD O GYMRU

THE REPERTOIRE OF A
WELSH TRADITION-BEARER

LEWIS T EVANS

1882-1975

CYNNWYS

	Tud.
1. Cyflwyniad.	745
2. Map o Uwchaled a llun Lewis T Evans.	758
3. Crynodeb o dystiolaeth lafar Lewis T Evans a gofnodwyd ar dapiau sain, 1-134.	760
4. Mynegai (yn ôl pwnc, person a lle) i dystiolaeth lafar Lewis T Evans ar dapiau 1-134.	832
5. Tales of a Welsh Tradition-Bearer. (Testun, wedi'i gyfieithu i'r Saesneg, o storïau gwerin (1-85) a recordiwyd ar dâp gan Lewis T Evans, ynghyd â chyflwyniad a nodiadau.)	856
6. Memory in Action: Narration, Communication and the Repertoire of a Passive Tradition-Bearer.	1022

**CYNHYSGAETH CYNHEILYDD TRADDODIAD O GYMRU:
LEWIS T EVANS (1882-1975)**

CYFLWYNIAD

Bu yng Nghymru draddodiad cyfoethog o bersonau a oedd yn awdurdod ar lôn a llafar eu bro ac yn gynheiliaid traddodiad eu tadau. Yr oeddynt megis llawysgrifau byw, a'u cynhysgaeth yn ein hatgoffa o ddiwylliant eang gwŷr y Dadeni Dysg a'r 'Hen Bersoniaid Llengar' gynt. Un o'r gwyrda hyn oedd Lewis T Evans (1882-1975): bardd, hynafiaethydd, crefftwr ac arlunydd; gŵr deheuig ei law, miniog ei feddwl a chofus.

Ganed Lewis Thomas Evans, 28 Gorffennaf 1882, ar fferm Ty'n-y-gilfach, ardal Cefn Brith, Plwyf Cerrigydrudion, yn yr hen sir Ddinbych. Bu yn Ysgol Ty'n-y-felin, Glasfryn, am dair blynedd, cyn mynd yn nawmlwydd oed yn was bach at ei ewythr ar fferm Hafod Llan Isa, Pentrellyncymer. Treuliodd ei ieuencid yn was fferm ar nifer o ffermydd yng nghylch Pentrellyncymer a Cherrigydrudion. Wedi cyfnod yn gweithio yn y chwareli ym Mlaenau Ffestiniog (1900-10), dychwelodd i'w fro enedigol, a bu yn ei dro yn was fferm eto, yn gipar, yn fugail, yn dyddynnwr ac, o 1930 hyd 1945, yn goedwigwr.

Ar ochr ei fam a'i dad, perthynai i deuluoedd diwylliedig iawn. Brawd i'w fam oedd gŵr o'r un enw, Lewis Evans. Ganddo ef y clywodd yr hogyn o Dy'n-y-gilfach rai degau o storïau gwerin pan gynorthwyai ei ewythr dall ar y fferm yn Hafod Llan Isa a rhannu yr un ystafell wely ag ef. Brawd arall i'w fam oedd Evan Evans (Ieuan Alwen) a gyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth mewn llyfr prin iawn erbyn hyn o'r enw Blodau Ebrill (Rhiwabon, d.d.).

Ar ochr ei dad, gallai Lewis T Evans olrhain ei achau gyda balchder hyd at ei hen, hen, hen daid, Dafydd, y cyntaf i ddod i fyw i Dy'n-y-gilfach. Cyfeiriai ato'i

hun fel: 'Lewis Evans, mab Hugh Evans, mab Huw Evans, mab Huw Ifan, mab Ifan, mab Dafydd'. Yr oedd Hugh Evans (1832-1905), tad Lewis T Evans, yn dipyn o fardd gwlad. Am ran olaf ei oes bu'n casglu trethi Plwyf Cerrigydrudion, a lluniodd englyn i ddisgrifio'i brofiadau:

Hel y dreth sy'n orlethol, - yr ydwyf
 Ar redeg tragwyddol,
 A Beibl enwau'r bobol,
 Du a gwyn, o dan y gôl.

Ymddiddorai Hugh Evans mewn seryddiaeth, ac aeth ati un tro i wneud arbrawf gyda pholyn er mwyn gallu profi bod y ddaear yn amgylchynu'r haul ac nid yr haul yn amgylchynu'r ddaear. Ymddiddorai hefyd mewn ieithoedd - Lladin, Groeg, Hebraeg a Ffrangeg, yn arbennig. Er mwyn ceisio meistrolï'r iaith Saesneg, dywedir iddo brynu geiriadur a dysgu oddeutu deuddeg mil o eiriau ar ei gof. Yr oedd yn ddarllenwr mawr a phrynai lyfrau gan bersonau megis William John Roberts (Gwilym Cowlyd, 1827-1904), a gŵr a adwaenid ar lafar gwlad fel 'Robert y Llyfrau Budron'. Arferai mam Hugh Evans ddweud mai dau beth yn unig yr oedd hi yn ofni eu gweld yn dod i'r buarth: 'Angau a gwerthwr llyfrau!' ¹ Megis ei gyd-ardalwyr Dafydd Jones (1859-1936), Tai Ucha, Hafod Elwy; Tom Owen (1866-1935), Tan Graig, Hafod Elwy; a Thomas Jones (1860-1932), Cerrigelltgwm, Ysbyty Ifan, yr oedd gan Hugh Evans yntau wybodaeth helaeth am hynafiaethau a llên gwerin ardal Uwchaled.

Fel y tad, felly'r mab. Yr oedd gan Lewis T Evans hefyd ddiddordeb byw iawn yn llenyddiaeth ei wlad ac yn hynafiaethau a thraddodiadau bro ei febyd. Er na chafodd ond cwta dair blynedd o ysgol, parhaodd yn ddisgybl gydol ei oes. Darllennai weithiau Beirdd yr Uchelwyr gyda blas, a chyfeiriai at Dudur Aled, Guto'r Glyn a Dafydd Nanmor fel petaent yn gyfeillion agos iddo. Roedd ef ei hun yn fardd creffus, a'r cywydd yn hoff fesur ganddo. Tua'r cyfnod 1860-1930 bu ardal Pentrellyncymer a Hafod Elwy ar Fynydd Hiraethog gynt yn nodedig am nifer ei

beirdd. Yn ei gywydd 'Dolef am Hafod Elwy' cyfeiria Lewis Evans gyda thristwch at ddiffaniad y gymdeithas farddol hon:

Ffarwel i Hafod Elwy,
 Ei thir mawn ni chreithir mwy...
 Ffarwel i Hafod Elwy,
 Y coed mawr a'i ceidw mwy.²

Yr oedd gan Lewis Evans ystod eang iawn o ddiddordebau, yn amrywio o gadw adar i wneud ffust a chribyn a llunio'i getyn pren ei hun. Gwyddai am rinweddau llyisiau a phlanhigion, a phan oedd yn llanc ifanc oddeutu'r ugain oed dechreuodd arlunio. Fel gyda'i farddoniaeth, y mae'r ychydig ddarluniau olew sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn yn adlewyrchu'i ddiddordeb mawr yn hanes a thraddodiadau Cymru, ac Uwchaled yn arbennig. Ceir llun ganddo o'r Brenin Arthur ar ei farch yn galw'i filwyr o'r ogof,³ a llun arall o Greigiau'r Bleiddiau, Hafod Elwy, a rhes o 'dwyrch trum' ar frig y to gwellt. Dyma gartref Ifan Edward (c. 1723-53?), y telynor, ac, yn ddiweddarach, y bardd a'r hynafiaethydd, John Davies (Taliesin Hiraethog, 1841-1894). Gwnaeth lun hefyd o Aelwyd Brys, Cefn Brith. Bu'r tŷ hwn yn dafarn unwaith ac yn ganolfan gymdeithasol o bwys ar fin yr hen Ffordd Dyrpeg a 'hen ffordd y porthmyn', gyferbyn ag ale fowlio ceilys a phitiau ymladd ceiliogod. Bu'n gartref i Richard Roberts, 'Dic Aelwyd Brys', y telynor a gydoesai â'i gymydog, John Jones (Jac Glan-y-gors, 1766-1821). Yn ddiweddarach bu'n gartref i'r bardd a'r hynafiaethydd T O Jones (1883-1958).

Diddordeb byw arall o eiddo Lewis T Evans oedd offer cerdd ac alawon gwerin. Gallai chwarae sturmant, cordial, organ geg, fflwt, ffidil a thelyn. Pan oedd yn ifanc rhoes gynnig ar wneud ffidil, a thrwsiodd ffrâm a thannau hen delyn deires a ddarganfu mewn murddun ar Fynydd Hiraethog. Pan oedd yn bedwar ugain mlwydd oed gwnaeth gitâr.

Cofnodwyd tystiolaeth lafar Lewis T Evans ar bapur ac ar dâp, 1-134 (67 awr), a chedwir y tapiau hyn yn Archif Sain Amgueddfa Werin Cymru. Testunwyd eu

cynnwys air am air a chrynodebwyd pob eitem a'u dosbarthu fesul pwnc. Ceir hefyd un ffilm fer sy'n portreadu Lewis T Evans.⁴ O bryd i'w gilydd gofynnid iddo 'nodi penne' a chofnodi gwybodaeth ei hunan ar bapur ar bynciau megis coelion ac arferion gwerin, storïau gwerin, meddyginiaethau gwerin, dywediadau, diarhebion, a llên gwerin y tywydd.⁵ Byddid wedyn ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig hon yn ei holi ymhellach. Yn achos pynciau megis storïau gwerin a hanesion, fe gofnodid y dystiolaeth ar dâp er mwyn cyfleu'r arddull lafar a manylu ar y cyd-destun. Lluniodd hefyd ddarluniau pen-ac-inc o hen offer amaethyddol, gan nodi enwau'r rhannau,⁶ a chyflwynodd ef a'i nith, Mrs Gwennie Thomas, naill ai yn rhodd neu ar fenthyg i Amgueddfa Werin Cymru nifer o lawysgrifau a phapurau'n ymwneud â diwylliant gwerin Uwchaled.⁷ Y pwysicaf o'r eitemau hyn yw casgliad cynhwysfawr Lewis T Evans o gerddi beirdd Hafod Elwy⁸ a thraethawd ei dad, Hugh Evans, ar lên gwerin ac enwau lleoedd Plwyf Cerrigydrudion.⁹

Wrth gofnodi tystiolaeth ar bynciau ag iddynt ddilyniant lled amlwg, megis gwaith y gwas fferm a'r forwyn, torri mawn, aredig a hau, cynhaeaf gwair ac yd, dyrnu a nithio, defnyddid cyfres o holiaduron manwl fel canllaw i'r holi. Yn aml iawn, fodd bynnag, deuai hanesion, traddodiadau neu storïau i gof y siaradwr ar y pryd. Yn wir, felly y cofiodd y mwyafrif o'r hanesion a'r storïau a adroddwyd ganddo - un pwnc yn awgrymu un arall. (Er enghraifft, disgrifiad o waith gwas fferm yn ei atgoffa o stori am was a'i feistr.) Yn amlach na pheidio, caniateid i'r siaradwr adrodd yr hanesion a'r storïau hyn yn y fan a'r lle, gan eu bod yn fyw yn ei feddwl ar y pryd. Ambell dro, gwneid nodyn yn unig o'r eitemau ychwanegol a'u cofnodi yn fanylach ar dâp neu yn ystod ymweliad arall.

Yn achos nifer o'r storïau gwerin a adroddwyd, fe'u hail-recordiwyd wedi bwlch o rai blynyddoedd, gan nodi unrhyw wahaniaethau mewn arddull, cynnwys, ffurf a manylion cefndir. Cadwyd hefyd ddyddiaduron manwl sy'n disgrifio pob ymweliad: yr awyrgylch ar yr aelwyd; pwy sy'n bresennol yn ystod y gwrandawriad; eu hymateb i'r sgwrs; ymateb ac ymddygiad y siaradwr; ac ymateb yr holwr. Ceir

ar gadw yn Amgueddfa Werin Cymru yn ogystal 'gerdyn recordiad' i bob tâp, a nodir ar y cardiau hyn unrhyw sylwadau perthnasol i safon neu natur y dystiolaeth.

Yr amcan dechreuol wrth holi Lewis T Evans oedd cofnodi cerddi llafar gwlad beirdd Pentrellyncymer a'r cylch a chasglu gwybodaeth am natur y gymdeithas yr oedd y beirdd yn rhan annatod ohoni, a'r union gymdeithas a oedd wedi ysgogi'r cerddi. Yn fuan wedi dechrau ar waith maes aed ati hefyd i holi a chwilio am llawysgrifau a phapurau rhai o feirdd a hynafiaethwyr amlycaf yr ardal, ac, yn y man, cafwyd hyd i dros 3000 o eitemau.¹⁰ Perthynai'r casgliadau hyn, yn bennaf, ar un adeg, i John Davies (Taliesin Hiraethog, 1841-94), Creigiau'r Bleiddiau, Hafod Elwy; Hugh Hughes (bu f. 1901), Cerrigydrudion (athro ysgol a golygydd Barddoniaeth Edward Morris Perthi Llwydion, 1902); Thomas Jones (1860-1932), Cerrigelltgwm Isaf, Ysbyty Ifan (genedigol o Dai Isaf, Hafod Elwy); Tom Owen (1866-1935), Tan Graig, Hafod Elwy; David Owen (1869-1940), Dinbych (brawd Tom Owen); Joseph Owen (1871-1956), Cerrigydrudion (brawd arall); a T O Jones (1883-1958), Aelwyd Brys, Cefn Brith. Cynnwys y casgliadau hyn rai cannoedd o gerddi (llawer ohonynt yn gynnyrch eisteddfodol); llythyrau; toriadau o bapurau newyddion; dyddiaduron; tonau; diarhebion; dywediadau; a thraethodau ar lèn gwerin a hynafiaethau'r ardal. Y mae'r cyfan yn ddrych o ddiwylliant eithriadol o gyfoethog y rhan hon o Uwchaled yn ystod y cyfnod c. 1860-1930.

Fodd bynnag, er mor amhrisiadwy yw'r casgliadau llawysgrifol hyn, nid ydynt ar eu pennau eu hunain yn ddigon i roi darlun manwl o fywyd pob dydd yr ardalwyr, ac nid ydynt chwaith, gyda rhai eithriadau, yn cofnodi'r cerddi a'r rhigymau answyddogol a oedd yn gynnyrch y bywyd hwnnw, megis troeon trwstan a cherddi i hynt a helynt dyn, y dwys a'r digri, o'r crud i'r bedd. Pwy oedd y beirdd a'r rhigymwyr answyddogol, awduron yr awen barod? Beth oedd eu gwaith a'u diddordebau? Beth oedd swyddogaeth y cerddi a'r achlysuron a ysgogodd y beirdd i'w cyfansoddi? Pwy oedd yn gwrando arnynt a'u hail-gyflwyno? Beth oedd

ymateb y gynulleidfa? Sut yr oedd yr ymrysonau barddol anffurfiol yn adlewyrchu'r gymdeithas gymdogol, glòs, a'r mynych dynnu coes?

Cynnig atebion i gwestiynau megis y rhai hyn a wnaeth Lewis T Evans. Ef, ond odid, oedd yr olaf o'r cynheiliaid traddodiad a fu'n llygad-dyst i'r bwrlwm creadigol a gysylltir â'r gymdeithas ar Fynydd Hiraethog yn y cyfnod hwn. Yn sicr, o blith yr ychydig hynafgwyr eraill y buwyd yn eu holi, nid oedd eu tystiolaeth i'w chymharu. Yr oedd y rhesymau am hynny yn lled amlwg: yr oedd Lewis Evans yn meddu ar grebwyll, sylwgarwch, a chof nodedig, a'r cof hwnnw wedi'i feithrin a'i hybu gan ddiddordeb byw yn ei bwnc. Y mae hefyd un ystyriaeth arall, sef y fantais fawr o holi un person yn fanwl ar ystod eang o destunau dros gyfnod helaeth o amser, a chael pob cefnogaeth a chroeso gan y person hwnnw beunydd.

Gwerth arbennig tystiolaeth lafar Lewis T Evans, felly, yw iddo gyflwyno darlun manwl o fywyd trigolion ardal Pentrellyncymer a'r cylch yn ei gyfanrwydd. Rhoes wybodaeth werthfawr, er enghraifft, am gynhaliaeth faterol dyn: ei fwyd a'i ddillad; ei foddion i gadw'n iach; ei dai, ei ddodrefn, a'i waith ar hyd y flwyddyn, megis gwaith yr amaethwr, y gwas fferm a'r forwyn, y torrwr ar ŵyn a'r daliwr tyrchod. Disgrifiodd ddyddiau arbennig, megis diwrnod cneifio, diwrnod dyrnu, a diwrnod lladd mochyn, a chyfraniad hollbwysig y crefftwyr crwydrol, megis Evan Jones, y Sadler; Evan Jones, y Gwydrwr, a'r 'Seiri Cochion'. Yn yr un modd, cyflwynodd ddarlun byw o'r cymeriadau diddorol hynny sy'n rhoi lliw a blas ar fywyd, y mwyafrif ohonynt yn drigolion lleol, ond rhai ohonynt yn ymwelwyr achlysurol, megis Cornelius Wood, y Sipsi, a Thwm Poole a Siarret (Roberts), dau grwydryn gwlad.

Rhoes Lewis T Evans inni hefyd wybodaeth werthfawr am gynhaliaeth ysbrydol dyn:

1. Coelion a swynion gwerin.

2. Arferion gwerin:
 - i. Arferion cylch bywyd dyn: geni, caru, priodi a marw.
 - ii. Arferion cylchdro'r tymhorau a'r gwyliau.
3. Difyrion a chwaraeon aelwyd.
4. Difyrrwch ieuencid ac oedolion allan ar fin nos; campau megis taflu maen a throsol a chodi'r garreg orchest; y twmpath chwarae a'r Wylfabsant.
5. Posau a chlymau tafod.
6. Hwiangerddi a phenillion telyn.
7. Rhigymau, englynion a cherddi llafar gwlad i hynt a helynt yr ardalwyr; er enghraifft: cerddi ar achlysur genedigaeth, priodas neu farwolaeth; cerddi troeon trwstan; cerddi gofyn a diolch; cerddi protest; cerddi dychan a gogan (moes-gerddi).
8. Llên gwerin planhigion, byd natur a'r tywydd.
9. Diarhebion a dywediadau, gyda sylw arbennig i ddywediadau lleol, megis: 'Talu diwrnod Ffair Cefn Brith' (talu byth - nid oedd ffair yno!); 'Hyd yma y doist ti, Lowri' (heb gyflawni rhyw lawer - cyfeiriad at Lowri Jones, Hafod Llan Bach, gwraig dlawd a grwydrai'r ardal i werthu canhwyllau brwyn).
10. Hanesion am gymeriadau lleol.
11. Hanesion a thraddodiadau am bersonau adnabyddus, megis Twm o'r Nant.
12. Hynafiaethau, chwedlau a thraddodiadau lleol.
13. Storiâu gwerin.

Wrth gyflwyno darlun cynhwysfawr o ddiwylliant gwerin dyn yn ei gymdeithas rhoes Lewis Evans wybodaeth inni am yr hyn a oedd yn creu'r diwylliant hwnnw: addysg, hyfforddiant a diddordeb; etifeddiaeth ddiwylliannol; a'r cwlwm adnabod a

chwlwm brawdgarwch a oedd yn troi ardal a chwmwd yn gymdogaeth. Rhoes wybodaeth inni yn ogystal am yr hyn a oedd yn cynnal y diwylliant hwn: parhad o'r un teuluoedd; dylanwad nifer o gynheiliaid traddodiad gweithredol (yn feirdd ac yn hynafiaethwyr, yn bennaf); a phwysigrwydd manau cyfarfod, yn arbennig y rhai answyddogol, megis y ffeiriau; y dafarn; y noswaith wau; 'noson ladd gwair'; 'gwleddoedd cyn Clame'; 'noson wneud cyfleth'; diwrnod 'dreifio grows'; noson cyfarfod y bugeiliaid yn Nhafarn Bryntrillyn; y lloft stabal; yr ysgubor ar ddiwrnod gwlyb; yr efail; diwrnod cneifio; diwrnod dyrnu; diwrnod lladd mochyn; ac, yn bwysicaf oll, aelwydydd croesawus. ¹¹

Ceir cyfeiriadau pellach gan yr awdur at Lewis T Evans a chyhoeddwyd detholiad o'i gynhyrsgaeth yn yr erthyglau a'r llyfrau a ganlyn, yn arbennig eitemau 1, 3-5, 7, 9-11.

1. 'Y Cwlwm sy'n Creu: Agwedd ar Gymdeithas yn Hafod Elwy a'r Cylch', Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych, cyf. 15, 1966, tt. 186-215.
2. 'The Folklore of a Welsh Rural Community', An Chomhdháil Cheilteach (Trafodion y Gyngres Geltaidd yn Nulyn, 1966), 1977, tt. 26-38.
3. 'Cerddi Llafar Cymdeithas Fynyddig', Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, cyf. 15, 1971, tt. 135-52.
4. 'The Prose Narrative Repertoire of a Passive Tradition - Bearer in a Welsh Rural Community', rhan 1-2, Folk Narrative Research, Studia Fennica, cyf. 20, Helsinki, 1976, tt. 283-93, a Fabula, cyf. 22, 1981, tt. 28-54.
5. 'Traddodiad yr Hen Bennill a'r Rhigwm yn Uwchaled', rhannau 1-5, Allwedd y Tannau, cyf. 35, 1976, tt. 11-23; cyf. 36, 1977, tt. 21-42; cyf. 37, 1978, tt. 60-79; cyf. 38, 1979, tt. 67-97; cyf. 39, 1980, tt. 56-79.
6. 'Teulu a Thelyn: Telynores Maldwyn, Dei Llwyn Cwpwl, Telynores Gwynedd a Phlas Llanofer', Allwedd y Tannau, cyf. 36, 1977, tt. 50-79.
7. 'Rhoi Cof yr Hil mewn Cyfrolau', Y Casglwr, rhif 9, 1979, tt. 9-11.
8. 'Beirdd Hiraethog', Bro, rhif 9, 1979, tt. 35-9.

9. 'Traddodiad y Gwŷr wrth Gerdd yn Nyffryn Clwyd a Bro Hiraethog', Gwŷr wrth Gerdd, gol. Aled Lloyd Davies, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Clwyd, Rhuthun, 1981, tt. 12-71.
10. 'Llên a Llafar Bro Hiraethog', Y Bedol, Rhagfyr 1977 - Rhagfyr 1996. Seiliwyd y gyfres hon o 100 o erthyglau byrion bron yn gyfan gwbl ar dystiolaeth Lewis T Evans. Y maent yn ymdrin â:
 - i. Cynhyogaeth cynheilydd traddodiad
 - ii. Yr iaith lafar
 - iii. Llên gwerin y tywydd
 - iv. Meddyginiaethau gwerin
 - v. Emynau llafar gwlad
 - vi. Englynion llafar gwlad
11. (Gydag Eifion Roberts), Yn Llygad yr Haul: Atgofion am Gefn Brith a'r Cyffiniau yn Uwchaled; Cyhoeddiadau Mei, Pen-y-groes, 1992, tt. 98-101. Gw. hefyd ysgrif Lewis T Evans, 'Yr Hen Bentre', tt. 261-4.
12. Uwchaled, cyf. 1 a 2, Cyfres Teithiau Llenyddol Gogledd Cymru, 20, Cyngor Celfyddydau Cymru, Swyddfa'r Gogledd, Bangor, 1994, cyf. 1, tt. 8-9, passim.
13. Y Ffynnon Arian. Cymdogaeth, Diwylliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled, cyf. 1, Gwasg Dwyfor, Pen-y-groes, 1996, tt. 126, 306, 310, 318-20.
14. Teulu, Bro a Thelyn. Portread o Ganwr Gwerin a Chynheilydd Traddodiad: Emrys Jones, Llangwm, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1997, tt. 13, 23, 73-4, 78-9, 86-7, 88-90, 115, 117, 188.

* * * *

Yn yr erthygl 'The Prose Narrative Repertoire of a Passive Tradition-Bearer in a Welsh Rural Community', rhan 1 a 2,¹² canolbwyntiwyd ar un brif agwedd ar gynhyogaeth Lewis T Evans, sef astudiaeth o 356 o'i storïau. Yn rhan gyntaf yr erthygl dadansoddwyd y prif fathau o naratif a gyflwynwyd ganddo:

1. Y stori werin bur (folk tale proper, 92, yn cynnwys 77 stori ddigri).
2. Mythau (2).
3. Profiadau personol goruwchnaturiol (memorates) (36).

4. Hanesion a chwedlau yn ymwneud â chred yn y goruwchnaturiol (24).
5. Hanesion, traddodiadau a chwedlau lleol yn ymwneud â hynafiaethau, digwyddiadau a phersonau o fewn y gymdogaeth (73).
6. Hanesion, traddodiadau a chwedlau yn ymwneud â digwyddiadau a phersonau hanesyddol y tu allan i'r gymdogaeth (27).
7. Storiâu a hanesion digri sy'n gysylltiedig â chymeriadau lleol (66).
8. Storiâu a hanesion digri yn ymwneud â digwyddiadau lleol, troeon trwstan yn bennaf (36).

Yn rhan gyntaf yr erthygl hefyd trafodwyd rhai ystyriaethau a benderfynodd natur a hyd a lled cynhyngaeth ystorïol Lewis Evans.

1. Traddodiad y stori werin yng Nghymru yn y cyfnod diweddar, gyda'r pwys ar storiâu digri a chwedlau lleol.
2. Cyd-destun diwylliannol.
 - a. Strwythur y gymdeithas.
 - b. Natur diwylliant y trigolion.
 - i. Y traddodiad llafar.
 - ii. Y traddodiad llenyddol.
 - c. Grwpiau cymdeithasol a chynheiliaid traddodiad.
 - ch. Sianeli trosglwyddo'r traddodiad.
3. Y storiwr: personoliaeth a chymeriad; crebwyll, cof, gwybodaeth a diddordebau; cartref a gwaith.

Yn ail ran yr erthygl trafodwyd:

1. Rhai ystyriaethau sy'n egluro paham mai cynheilydd traddodiad goddefol, yn bennaf, fu Lewis T Evans am 25 mlynedd olaf ei oes (yr angen am brocio'r cof er mwyn ei gynorthwyo i gofio'r storiâu).
2. Ffurf, strwythur, arddull a chynnwys y storiâu.

3. Defnydd, ystyr a swyddogaeth y storïau, ac agwedd / ymateb y storïwr (metafolklore).
4. Cyfyngiadau a gwerth yr astudiaeth.

* * * *

Yn y gwaith presennol cynhwysir crynodeb o dystiolaeth lafar Lewis T Evans a recordiwyd ar dapiau sain, 1-134. Y bwriad yw rhoi amcan o hyd a lled cynhyngaeth un cynheilydd traddodiad mewn un ardal wledig yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1964-74. Cynhwysir mynegai i'r tapiau, wedi'i drefnu yn ôl pwnc, person a lle.


Yn y gwaith presennol hefyd cynhwysir testun (wedi'i gyfieithu i'r Saesneg) o 85 stori werin a adroddwyd gan Lewis T Evans ar dâp, ynghyd â chyflwyniad. Yn y nodiadau canolbwyntir ar nodi ffynhonnell pob stori, cyfeirio at unrhyw fersiynau cymharol o Gymru, a manylu ar y cyd-destun cydwladol (teipiau a motifau).

Yn olaf, cynhwysir ymdriniaeth â chof cynheilydd traddodiad goddefol, gyda sylw arbennig i gynhyngaeth ystorïol Lewis T Evans. Sut y mae'r cof yn effeithio ar hyd a lled y gynhyngaeth ac ar natur y traddodi? Sut y mae cynheilydd traddodiad goddefol yn ail-fyw ei storïau? A beth yw effaith y cof yn pallu?

NODIADAU

1. Thomas Jones, 'Y Llenor Gwledig', Cymru, 32, 1907, tt. 305-8. Cyhoeddwyd hefyd yn Eifion Roberts a Robin Gwyndaf, Yn Llygad yr Haul: Atgofion am Gefn Brith a'r Cyffiniau yn Uwchaled, Pen-y-groes, 1992, tt. 265-74.
2. Awen Sir Ddinbych, 'Cyfres Barddoniaeth y Siroedd', gol. cyffredinol, Emlyn Evans, Llandybïe, 1964, t. 104.
3. Cyhoeddwyd y llun (mewn lliw) yng Nghalendr Gweled, Cymdeithas Gymraeg y Celfyddydau Gweledol, 1990, ac (mewn du a gwyn) yn y gyfrol Yn Llygad yr Haul, t.100.
4. 'Ar Gwr y Goedwig', cyflwynydd Gwyn Erfyl. Teledu Harlech, darlledwyd 7 Awst 1973. Rhif tâp fideo AWC 14.
5. Llsg./au AWC 1480/8, 9, 11, 14.
6. Llsg./au AWC 1480/5, 6, 15, 16.
7. Llsg./au AWC 1374-8, 1420, 1480/1-17, 1873.
8. Llsg. AWC 1420.
9. Llsg. AWC 1480/7. Y mae teitl y traethawd a thud. 1-19 yn eisiau.
10. Y mae'r casgliadau hyn bellach ym meddiant yr awdur.
11. Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r manau cyfarfod hyn, gw. Robin Gwyndaf, 'Y Cwlwm sy'n Creu: Agwedd ar Gymdeithas yn Hafod Elwy a'r Cylch', Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych, 15, 1966, tt. 186-215.
12. Folk Narrative Research. Studia Fennica, 20, Helsinki, 1976, tt. 283-93, a Fabula, 22, 1981, tt. 28-54.
13. Yr oedd Lewis T Evans yn ddi-briod a gofalwyd amdano am ran olaf ei oes gan ei nith Mrs Gwennie Thomas (1907-84) a'i phriod John Thomas (1906-73). Buont hwy, fel Lewis T Evans, y tu hwnt o groesawus wrth yr awdur drwy

gydol yr amser y bu yn ymweld â'u cartref, a dymunaf ddiolch o galon iddynt am bob caredigrwydd. Yr un modd, mawr fy niolch i'w plant, Mrs Kitty Rawson, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, a Mr Rheinallt Thomas, Yr Wyddgrug, am eu caredigrwydd cyson hwythau. Yn olaf, diolch yn ddiffuant iawn i'r Dr Anne Elizabeth Williams a Mr Howard Williams, Clynog Fawr, am lawer iawn o gymorth wrth baratoi'r testun o'r storïau a'r crynodeb o gynnwys y tapiau.





Lewis T. Evans (1882 – 1975), gyda'r awdur, yn ei gartref
newydd, Cartref, Y Gyffylliog, 9.v.1974.
Llun : Amgueddfa Werin Cymru

CRYNODEB O DAPIAU LEWIS T. EVANS

Crynodeb o dystiolaeth lafar LEWIS T. EVANS (1882-1975) a gofnodwyd ar dapiau sain Amgueddfa Werin Cymru gan Robin Gwyndaf, rhwng 24 Tachwedd 1964 a 12 Awst 1974. Oni nodir yn wahanol, cyfeiria'r dystiolaeth at ardal Uwchaled, ac yn arbennig cylch Cerrigydrudion, Cefn Brith, Pentrellyncymer a Hafod Elwy (ar Fynydd Hiraethog).

1. Tâp 870

1. Teulu. Ganed L.T.E. yn Nhy'n Gilfach, plwyf Cerrigydrudion, 28 Gorffennaf 1882.
2. Ysgol Glasfryn, rhwng 6½ - 9½ mlwydd oed. Chwaraeon. (Gw. hanes yr ysgol yn fanylach eto, tapiau 4348-50)
3. 9½ mlwydd oed: gwas fferm yn Hafod Llan Isa, Pentrellyncymer (blwyddyn). Gwas ym Mhenffordd Ddu, Llanelidan (2 flynedd). Ysgol nos. Dysgu barddoni. Gwas yn Nhaf'n-y-foel, Cerrigydrudion (2 flynedd); Tŷ Gwyn, Pentrellyncymer (2 flynedd); Tŷ'n Gilfach (2 flynedd); Plas Hafod-y-maidd (naw mis).
4. Gweithio yn chwareli Blaenau Ffestiniog (10 mlynedd).
5. Gwas yn Nhaf'n-y-foel, yr ail waith (2 flynedd).
6. Symud o Gefn Brith i Dŷ Capel, Pentrellyncymer. Yno am 20 mlynedd.
7. Gweithio fel cipar i Arglwydd-Davenport ar Fynydd Hiraethog (10 mlynedd). Lloggi'r mynydd. Nafis yn paffio.

2. Tâp 871

1. Gwaith cipar (parhad). Trapio.
2. Symud i fyw a ffermio yn y ffermydd a ganlyn: Brynffynnon, Llechwedd; Gellioedd Ganol, Llangwm; Llwyn Onn, Cwm Main; Hafod Lom, Pentrellyncymer.
3. Gweithio yn y 'Gwaith Coed', Fforest Clocaenog - cyfnod hapusaf ei fywyd, dim helynt byw. Symud i Dan-y-graig, Pentrellyncymer, ac yna i Seler, Y Gyffylliog.
4. Thomas Jones, y bardd, a'i gred mewn ysbrydion.
 - a. Clywed sŵn rhywun yn dod i'r tŷ. Neb yno.
 - b. Gweld heffer las a tharw glas yn yr eira.
4. Stori am chwarae cardiau ar ganllaw Pont Rhydlydan. Traed ceffyl gan y dyn diarth.
6. Elis Prys, Plasiolyn, 'Y Doctor Coch', yn codi cythreuliaid.

7. Chwarae 'Ysbryd y Bwrdd' yn Hafod Llan Isa. Chwilio am arian/trysor ym Mryn-y-gwynt.
8. Ann Jones, Hendre Ddu, yn rhigyму.
`Mi 'fynnes i'm cymdoges
Ryw unwaith yn fy oes ...'
9. Lleidr Nant Heilyn ac arian Mwdwl Eithin. Cais i'w ddarganfod. Bugail yn llithro ar gist.
10. Stori werin: Jac y Lantarn a'r Diafol. Rhoi cetyrn (gwn) yng ngheg y Diafol!
11. Y gannwyll gorff.

3. Tâp 872

1. Y Tylwyth Teg. Cylchoedd. Arian y Tylwyth Teg.
 - a. Huw Jones yn darganfod pedwar darn hanner coron.
 - b. 'Papur silfar' ar y borfa.
 - c. Teiliwr a'i wraig yn darganfod darnau arian, ond hyn yn peidio wedi iddynt hysbysu pobl eraill.
 - ch. Y Tylwyth Teg yn ffeirio plentyn yng Ngherrigelltgwm.
2. Carnedd y Bachgen. Hanes am fachgen yn marw yn yr eira.
3. Thomas Jones: athro barddol L.T.E. a'i athro ar y ffidil.
4. L.T.E. yn gwneud telyn a ffidil. Pren masarn. Hanes L.T.E. yn darganfod telyn deires John Lloyd Edwards, Ffridd Ddedwydd, mewn llofft (murddun) a'i thrwsio.
5. Tom Owen, bardd. Manylion bywgraffyddol a'i waith. Rhannau o'i englynion.
 - a. Englyn y myharen.
 - b. Englyn gofyn am waliwr gan Tom Owen: cyfaill T. Gwynn Jones.

4. Tâp 873

1. Marwnad Robert Dafis, Nantglyn, i'w frawd.
2. Cerrig Caws: man marchnad i Ddyffryn Clwyd a'r wlad uchaf.
3. Hafod Lom: cerrig Rhufeinig.
4. Huw Jones.
 - a. Cerdd y fules.
 - b. Cerdd i ofyn cosyn.
5. Robert Jones, brawd Jac Glan-y-gors.
6. Jac Glan-y-gors. Ffoi o Gerrigydrudion. Codi tafarnau yn

7. Huw Jones: cân ceffylau bach ffair Cerrigydrudion.
8. Eos Crisbin, rhigymwr.
 - a. Ateb cerdd Huw Jones.
 - b. Cerdd i ateb ei wrthwynebwyd.
 - c. Eos Crisbin ac Eisteddfod Llanfihangel Glyn Myfyr.
9. Elias Jones (Llew Hiraethog).
 - a. Cerdd i'r cathod.
 - b. Cerdd y tenant.
 - c. Cerdd Marged Graig Hir.
 - ch. Englyn y cwmwl.
 - d. Englyn i'r carchar.
 - dd. Diawlio beirniadaeth Tafolog.
10. Eisteddfod Pentrellyncymer.

5. Tâp 874

1. Eisteddfod Pentrellyncymer. Pobl y capel yn nodd i'r eisteddfod. Bwyd. Argraffu rhaglenni. Sied Tŷ Gwyn.
2. Stori ddigri: Gwyddel a bwced yn cael eu hysgubo i'r môr. Thomas Jones, Cerrigelltgwm, yn adrodd yn yr eisteddfod.
3. John Roberts: araith yn Eisteddfod Pentrellyncymer. Tri phwynt ganddo.
4. Manylion am y cystadlaethau.
5. Cystadleuaeth gwneud ffôn a chystadleuaeth gwneud llwy bren.
6. Cyfarfod llenyddol Cefn Brith.
7. Beiciau dwy olwyn, 'penny farthing' a thair olwyn.
8. Cyfarfod llenyddol Cefn Brith: rhagor o fanylion.
9. Dafydd Jones, Tai Ucha: englynion.
 - a. I'r Llwydrew
 - b. Pont y Glyn.
10. 'Picin' a llwy bren. Sut i wneud 'picin'.
11. Cyfarfod llenyddol Cefn Brith. Cystadleuaeth gwneud ffrâm darlun a cherfio pren.

6. Tâp 875

1. Eisteddfod Pentrellyncymer a chyfarfodydd llenyddol.
2. Rhwyg yn y capel wedi digwyddiad yn yr eisteddfod; siopwr croendenau.
3. Eisteddfodau bychain a chyfarfodydd llenyddol Uwchaled.
4. Stori ddigri am furiau tenau tai cyngor.
5. Cyrnol Mainwairing yn ceisio dysgu englyn Tudno i'r 'Dr Pan Jones'. Dafydd Jones, Tai Ucha, yn adrodd yr englyn wrtho.
6. Hanes meddyg Bronafallen yn cwffio mewn cyngerdd plant.
7. Hooks: cerddi i 'Regen y Rhych' a 'Dafydd Bwlch Dingen', rhigymwr a dyn milain.
8. Bwlch Dingen, esboniad ar yr enw.
9. Dafydd Jones, Tai Ucha: cwpled am gynnig sâl y porthmon.
10. Stori ddigri am ddarlith ar y cyfansoddiad dynol.
11. Dafydd Jones, Tai Ucha: cerdd wrth ladd mochyn a'r hanes digri sydd ynghlwm wrthi.
12. Diwrnod lladd mochyn: disgrifiad.
13. Huw Jones: cerdd am fynd i garu yn syth o'r cytiau moch.

7. Tâp 876

1. Rhan o bennill 'Pob llwyddiant fo i'r doctor'.
2. Dafydd Jones, Tai Ucha.
3. Cân Huw Jones i'r merched 'straellyd'. Byr a thoddaid. Teulu Robert Dafis, Nantglyn.
4. Emyr Gwen Jones: 'O Arglwydd cladd fy meiau'.
5. Ann Jones: pennill bwyd yr ieir.
6. Wil Ysgeifiog. Englyn i Robert Dafis, Nantglyn. Hanes Wil Ysgeifiog. Ateb Robert Dafis, Nantglyn (englyn).
7. Elias Jones (Llew Hiraethog): digio ar ôl colli yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych.
8. Teulu Hendre Ddu. Beirdd. Elias a Huw. Isaac Jones: pytiau o'i waith.
9. Llew Hiraethog: englyn i wawdio honiad Gabriel Parri iddo ddarganfod aur: 'Parri, pa le mae'r puraur? Castie'r rôg oedd cist yr aur.'

10. Huw Jones.
 - a. Hanes digri plant ysgol y Bŵt.
 - b. Huw Jones yn ffariar: stori ddigri tynnu'r llo.
 - c. Huw Jones yn gipar ac ateb y barnwr.
 - ch. Stori ddigri am ei gig yn rhy ysgafn o 2 owns.

8. Tâp 877

1. Morus a Sam yn ateb rhyfyg Huw Jones.
2. Gwleddoedd ffermwyr Hafod Elwy. Dim gweision yno.
3. Stori Dafydd Hafod Llan Bach yn gwawdio rhifyddeg Morus a Sam.
4. Hanes mygu noson weu Foty Wil. Tywarchen ar y simddai.
5. Hanes y pren lladron yn y simddai.
6. Gwleddoedd.
7. Huw Jones: cân am fygu noson weu Foty Wil.
8. Noson lladd gwair.
9. Pennill am ddau lanc yn mynd i garu. Awdur anhysbys.
10. Noson lladd gwair. Gwledd. Areithio. Sam yn dwyn araith Jac Phylip.
11. Jac Phylip.
12. 'Horse music'. Stori dychryn ceffylau'r byddigions.
13. 'Horse music': sut i'w wneud.
14. Noson weu.
15. Wil y Foty, gwneuthurwr basgedi.
16. Noson gwneud cyfleth.
17. Cân a genid gan Ffransis Jones.
18. Ifan Edward y Telynor.

9. Tâp 878

1. Araith ar y Lythyren 'D'.
2. Ifan Edward y Telynor. Pennill y 'croesdynged'. Cân Hafod Lom.
3. Hafod Lom. Teulu'r Morusiaid. Cyrchfan beirdd. Nosweithiau llawen.
4. Dau draddodiad am sefydlu capel Pentrellyncymer.

- a. Y ffidler a Thomas Ellis, Llangwm.
- b. Yr hwch ddu.

5. Taflu maen a throsol.
6. Coetio. Disgrifiad. Huw Jones yn ceryddu'r bachgen am chwarae.
7. Pennill: `Yn Hafod Elwy'r gog a gân,
Ond llais y frân sy amla...'
8. Pennill: `Beth dâl imi gasglu cod ...'
9. Ysgol Gruffudd Bodunig. Enwau'r disgyblion. Lloyd Bryniog Roberts.
10. Ysgol farddol Garth Geri. Tudur Aled. Gruffudd Hiraethog.
11. Llinellau i'r bibell a'r cetyn.
12. Taliesin Hiraethog. Bywgraffyddol a darn o englyn.

10. Tâp 879

1. Huw Jones - cân wedi i Wil y Foty gael ei amddifadu o sofran y plwyf.
2. Taliesin Hiraethog.
3. William Thomas, Cefn Garw. Cadw cyngherddau. Rhigymau. Stori'r bachgen am brynu merched yn y ffair. Stori'r wraig mewn cyngerdd.
4. Parchedig Morgan Jones.
5. Myfyr Alwen.
6. Huw Myfyr.
7. R.H. Jones, bardd.
8. Harri'r Go.
 - a. Stori lojin y Rhos.
 - b. Ateb sarhad Ifan Lewis, un llygad ganddo. Tynnu coes ar gân.
9. Jac Harri'r Go. Englyn y llygoden. Bywgraffyddol.
10. Harri'r Go. Hanesion amdano.
11. Huw Parri Owen. Englyn i'r wningen. Tro trwstan wrth symud tŷ.
12. Ieuan y Foelas. Englyn i'r ceiliog. Bywgraffyddol.

11. Tâp 1024

1. Tan-y-graig. Tom Owen.
2. Hanes sticio'r mochyn. Pennill Dafydd Jones, Tai Ucha.
3. Tan-y-graig. Tom Owen a Mr Cox, Pen-y-ffridd.
4. Tai Pella. Trigai bugail yno.
5. Ty'n-gors, ar fin ffordd Cerrig Caws. Murddun.
6. Bodunig: murddun.
7. Clogwyn Coch - Lloyd Edwards.
8. Tŷ Isa:
 - a. Hanes damwain anghheuol.
 - b. Ysgol Sul yno.
9. Robert Morus, Creigiau Bleiddiau. Pennill 'Beth dal im gasglu cod...' Stori ddigri: anallu Robert Morus i drin ceffylau.
10. Creigiau Bleiddiau, Hafod Llan Ucha a Hafod Llan Isa. Eu clymu wrth ei gilydd â'r fforestydd.
11. Ieuan Alwen. Englynion: 'Injan Ddyrnu' a 'Pero'.
Cân i Hafod Elwy. Ei lyfr: *Blodau Ebrill*.

12. Tâp 1025

1. Llew Hiraethog a Thaliesin Hiraethog yn cellwair wrth arwain eisteddfod.
2. Ieuan Alwen. Bywgraffyddol. Mynd i America. Cyfrannu i'r *Rhos Herald*.
3. Siarret (crwydryn):
 - a. Stori John Thomas y ffariar yn ei dwyllo o'i benwaig.
 - b. Thomas Jones yn peri iddo gwymbo o'r dafnod.
 - c. Thomas Jones a'r peg.
 - ch. Ateb parod am goesau i wraig gloff.
 - d. Gwawdio methiant eisteddfodol John Thomas, Ty Ucha, Ffrithoedd.
 - dd. Sarhau cariad William Charles Edwards.
 - e. Cysgu yn lle gweithio i Robert Morus, Creigiau Bleiddiau.
 - f. Torri addewid i dorri mawn.
 - ff. Dafydd Jones, Tai Ucha. Cerdd 'Dafydd Plas Iolyn' a rhan o englyn 'Mari'r Iâr' (i Siarret).
 - g. Rhan o englyn Elias Jones i Siarret.
4. 'Fel y gath yn flew i gyd': llinell gan ap Glaslyn.
5. Twm Pwl (crwydryn):
 - a. Stori ei ollwng i'r siafft.
 - b. Ei drowsus a'r 'fresh air'.
 - c. Morynion yn ei guro.

13. Tâp 1026

1. Twm Pŵl. Gwerthu priciau i dad Edward Pant Glas.
2. Hooks: gweld rhyfeddodau ar ei wylliau yn Ninbych.
3. Stori trempyn yn erlid Johnny Lloyd: 'How many miles to Corwen?'
4. Lowri Glan Alwen. Cerdd Huw Jones: 'Llawnach yw sŵn llinach Siani'.
5. Cerdd Llew Hiraethog: 'Cadwaladr Graigerchen a'i Gatrín ac Owen'.
6. Lowri Glan Alwen. Gwerthu canhwyllau brwyn hyd y wlad.
7. Dafydd Meirion Goch yn bradychu Jac Phylip.
8. Bywyd llenyddol a diwylliannol Hafod Elwy - Y Beibl, *Y Ffanner*, *Y Gwyddoniadur*, Daniel Owen.
9. Nant Heilyn.
 - a. Pennill Tom Owen.
 - b. Traddodiad y lleidr Heilyn a thraddodiad y porthmon yn ail-feddiannu ei arian.
10. Tai Isa.
11. Tai Ucha. Teulu yn dioddef o'r teiffoid. Dafydd Jones, Tai Ucha.
12. 'Hafod Elwy': cerdd Cadfan i'r fro.

14. Tâp 1027

1. Hanes am dad Besi.
2. Robert Roberts (Robert Patagonia):
 - a. Sionyn a'r baco.
 - b. Mochyn Robert Patagonia.
 - c. Ateb ffraeth am dyfu tatws mewn lludw.
 - ch. Stori amdano'n gwylltio ynglŷn ag arian rhent.
 - d. Stori ddigri - Marged Tomos yn gwawdio ei gorddi efo'r hyrddi gyrdi.
3. Patagonia - ymfudwyr yn dychwelyd (cyfeiriad byr).
4. Gwilym Hiraethog.
 - a. Ei daith gerdded i'r Bala.
 - b. Ateb ffraeth i sarhad ar Gwilym Hiraethog unllygeidiog. 'Dim un llygad yn eich potes chi'.
5. Tylwyth Teg. Esboniad Bob y Cipar arnynt - sgwarnogod.
6. Hanes Pys yn lladd merch Foty Hafod Dre, Pentrefoelas.

7. Tudur Arfon.
 - a. Beddargraff merch a lofruddiwyd - englyn.
 - b. Beddargraff person a foddodd.
8. Creigiau Bleiddiau. Clogwyn Coch. Elor Garreg. Hafod yr Onnen Hen. Cwmwd Ffrithoedd.
9. Jac Tŷ Twyrch: rhigwm i gymeriadau lleol.
10. Stori ddigri: ateb diniweityn Llwyn Cwpwl i ddyn diarth.
11. Morus yn llofruddio ei wraig.
12. Dafydd Jones: dyn diwylliedig.

15. Tâp 1028

1. Beaver Grove - Befar Gro
2. Stori ddigri: Huw Jones yn ateb y barnwr (sef ei gyflogwr) am Van Diemen's Land.
3. Marc Jones (Tŷ Capel): gweld drychiolaeth ei ferch gladdedig a mabwysiadu ei phlant.
4. William Charles Edwards, Pentre Draw.
5. Robert Roberts, Foty Wen. Cymydog da. Englyn Llew Hiraethog iddo.
6. Edward Morus, Elor Garreg Ucha, ffermwr.
7. William Llwyd, Elor Garreg Isa, canwr hen gerddi a ffermwr.
8. Wil y Foty.
9. Isaac Ismael. Englyn i Wil y Foty a'r twrch. Isaac Ismael a'i frawd.
10. Teulu Hendre Ddu. (Cyfeiriadau byr.)
11. Hendre Ucha: amrywiol ddeiliaid y fferm. Tŷ Capel. Foty Wen. Y Bwt (Alwen Cottage).
12. Thomas Jones, Esgair Wen, cerddor.
13. Stori ddigri: Morus Roberts yn digio balchder Ifan Jones.
14. Graig Hir a Marged Tomos. Ffraethineb. 'Diana'r Ephesiad' gan Jac Phylip.

16. Tâp 1057

1. Hen Ddinbych: 'Llanfihangel Hiraethog'. Olion hynafiaethol.

2. Maen Cledde. Carreg a holltwyd gan gleddyf cawr.
3. Caerddunod. Olion mynachlog Babyddol. Mynachod Bangor Is-coed.
4. Brwydr ger Tan-y-graig.
5. Hen fynwent Llechwedd.
6. Cymol Mainwaring. Hanes Dafydd Jones, Tai Ucha, yn ceisio dysgu iddo englyn Tudno i'r 'Dr Pan Jones'.
7. Dr Pan Jones ym Mhentrefoelas. Dim cefnogaeth.
8. Ffridd y Pentre: olion 'mân dai'.
9. Cytiau Gwyddelod ar Fynydd Poeth.
10. Buches y Wrach. Olion.
11. Cylchoedd cerrig. Dim cromlechi yn yr ardal.
12. Llew Hiraethog yn digio Thomas Jones, Cerrigelltgwm mewn beirniadaeth eisteddfodol ar englyn.
13. Bryn y Gors Goch a'r Lafar Ddu.
14. Llew Hiraethog: sbeitlyd.

17. Tâp 1058

1. Pont Rhuddfa - esboniad ar yr enw.
2. Eira Mawr yn Hafod Elwy. Colledion defaid Hafod Lom ac Elor Garreg Ucha. Catrin Jones yn bwyta iâr.
3. Hir a thoddaid Huw Jones i 'ferched straellyd' Hafod Llan Bach.
4. 'Eira du' (eira mawr). 'Shwrwd eira'.
5. Dau ddyn bron â threngi yn eira mawr Hafod Elwy.
6. Hanes cychwyn gyrfa L.T.E. fel gwas.
7. Mynd yn was neu'n forwyn yn Hafod Elwy. Mynd tua 13 oed. Fawr o ddewis arall.
8. Ffeiriau cyflogi Uwchaled. Ffair Pentrefoelas.
9. Elis o'r Nant - yn ffair Pentrefoelas a chwarel Graig Ddu, Blaenau Ffestiniog. Gwerthu llyfrau a hen gerddi. Disgrifiadau ohono o ran pryd a gwedd.

18. Tâp 1059

1. Bardd Crwst yn gwerthu hen gerddi yn ffair Pentrefoelas.
 - a. Rhys Parri (anllythrennog) yn prynu sawl copi o'r un gân.
 - b. Cerdd 'Pys yn lladd y ddynes'.
2. Cerddi Jac Glan-y-gors: 'Dic Siôn Dafydd', 'Bessi o Lansanffraid' a 'Priodas Siencyn Morgan'.
3. Jac Glan-y-gors: ymgyrch o'i blaid yn Hafod Elwy. Thomas Jones, Cerigelltgwm, a William Defi Jones. Methiant.
4. Bardd Crwst. Canu yn y ffeiriau. Blaenoriaid capeli yn gwgu arno. Plant a llanciau yn ei hoffi. Ffair Pentrefoelas. Pryd a gwedd y Bardd Crwst.
5. Elis o'r Nant. Gwerthu llyfrau o bob math. Llyfrau megis *Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth* a nofelau Daniel Owen.

19. Tâp 1060

1. Huw Jones: pennill ar achlysur priodas Thomas Jones, Esgair Wen (gair mwys - 'rhes').
2. Wil Jones: canwr cerddi.
3. Huw Jones: pennill i gariad newydd Marged Tomos, Graig Hir.
4. Gwilym Cowlyd: 'Hen Gymro Braf o Ruthun' - Wil Jones yn canu'r gerdd.
5. Stori John Tomos, Tŷ Ucha Ffrithoedd, a'r 'wich'.
6. Mynyddog: cân 'Ddaw hi ddim'. Wil Jones yn ei chanu.
7. Wil Jones: cantor.
8. Huw Jones: cân am 'arian mawr' y raffl yn peri i fachgen newid ei gariadferch.
9. Stori ddigri: Jac Phylip yn addo rhannu gwobr raffl â chapel ond cael help yr Arglwydd i ennill!
10. Taliesin Hiraethog: 'Cerdd yr Yswain'.
11. Ifan Jones y Sadler.
 - a. Englyn i 'Raeadr Bryn Hir'.
 - b. Manylion am ei waith fel sadler.

20. Tâp 1061

1. Englyn Llew Hiraethog i'r lledr blewog: 'Cryn bla fu hefo'r croen blewog ...'

2. Ifan Jones y Sadler. Deuai i Dai'n-y-foel a Thŷ Gwyn. Disgrifio'i daclau. Gweithio oriau hir. Cael sylw arbennig gan ffermydd. Straewr da. Trefn y bwyta ar ddiwrnod dyrnu: 'bwrdd bach a bwrdd mawr'. Gwely arbennig ar gyfer crefftwyr. Blaenor Methodistaidd. Ifan Jones yn cadw dyletswydd ble bynnag yr âi. 'Hwyl' wrth weddio. Rhyddfrydwr. Oes anhrugarog: diffyg cydymdeimlad.
3. Elis o'r Nant. Trigo yn Nolwyddelan. Cylch ei deithio: Llanrwst, Betws-y-coed, Pentrefoelas. Nid Cerrigydrudion. Beirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ni ymwelai â ffermydd a thai unigol. Dod i gyfarfod ym Mhentrellyncymer i werthu llyfrau. Sylwadau Thomas Jones, Cerrigelltgwm, arno. Pobl y capeli - rhagfarn yn ei erbyn.

21. Tâp 1062

1. Jacob Jones a'i gân:
 'Ti-rym, ti-rym, ti-ero,
 Mi es i garu Gwen ...!
2. Ffeiriau Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Meddwi a phaffio.
3. Dafydd Jones, Tai Ucha: stori ddigri amdano'n rhegi'r Parchedig Morgan Jones. Cael ei ddirwyo o'r herwydd.
4. Sarjant Roberts, Cerrigydrudion.
5. Ffeiriau Pentrefoelas a Cherrigydrudion. Jo Ifans a'r watsys. Hysbysebu'r ffeiriau mewn almanaciau. Dim anifeiliaid.
6. Y dull o gyflogi gweision mewn ffair.
7. Dillad gweision fferm. Y ffasiwn adeg ieuenctid L.T.E. a'r ffasiwn adeg ieuenctid Thomas Jones, Cerrigelltgwm (trowsus gwyn a wellingtons melyn, 'tshêt').
8. Cyflogi gwas fferm. Profion ffermwyr i was 'Fedrwch chi droi? Fedrwch chi ... ?'
9. Bob Goch: Cân lladd y gwair (1 pennill 6 llinell).
10. Wood: telynor.
11. Gŵyl Ddewi - cyfarfodydd y 'Lion' (White Lion), Cerrigydrudion.
12. Pennill (6 llinell) Jac Goch am 'Modryb Ann y Bobreg'.

22. Tâp 1063

1. Myfyr Alwen: pennill Gŵyl Ddewi (4 llinell).
2. Cinio a chyfarfod Gwyl Ddewi yn y Lion, Cerrigydrudion. Canu efo'r tannau. Ciniawa.

3. Wood y telynor. Ymweld â Cherrigydrudion a'r Lion.
4. John Edwards (Jac Goch). Saer a chantor. Chwarae'r trombôn yn seindorf Cerrigydrudion. Y seindorf yn dod i ben wedi cael diod ac ymladd. Saer anfedrus. Jac Goch yn hel arian i dalu dyled. Sgwrsiwr diddan, lliwgar.
5. Bob Goch. Saer a chantor. Ei ferch yn dawnsio i gyfeiliant y delyn.
6. Cornelius Wood y telynor. Sipsi. Ymweld â Cherrigydrudion i ddawnsio a chanu'r delyn.
7. Meibion John Edwards (Jac Goch): dawnsiwr. Rhagfarn crefyddwyr yn erbyn dawnsio â'r tannau. Er hynny, y beirdd o'u plaid.
8. Seindorf Cerrigydrudion. Thomas Jones, Cerrigelltgwm, yn cofio'r band cyntaf (ond nid yn aelod). Sefydlu ail fand pan oedd L.T.E. yn 15 oed. Ni pharhaodd yn hir.
9. Cymdeithas Gyfeillgar Uwchaled yng Ngherrigydrudion. (Cyfeiriadau byr yn unig.)

23. Tâp 1064

1. Y Clwb yng Ngherrigydrudion: Cymdeithas Gyfeillgar Uwchaled. Dod i ben wedi cyflwyno yswiriant Lloyd George. Prawf doctor. Sash goch.
2. Cyrnol Mainwaring a'r Clwb. Ymuno ar ôl gweld yr orymdaith.
3. Clwb yr Oddfellows yn Llanfihangel Glyn Myfyr. (Cyfeiriad byr iawn).
4. Clwb Cerrig. Dynion yn unig yn aelodau. Cinio blynyddol ar Ddydd Iau Dyrchafael. Band o Benmachno a gorymdaith i Fwllch-y-beudy, cartref Cyrnol Mainwaring.
5. 'Dyn yn ei fwtshwrs yn torri plwm pwdin efo haearn gwair' - geiriau Thomas Jones, Cerrigelltgwm.
6. Jiwibili y Frenhines Victoria: dathliadau yng Ngherrigydrudion. Cystadlaethau: dringo polyn, gyrru berfa, rasys, melin godwm (i ferched hefyd).
7. Agwedd Huw Jones at y dathliadau: 'chwarae plant'.
8. Iaith y dathliadau a chyfarfodydd y Clwb: dwyieithog, ond Cymraeg yn bennaf.
9. Woodiaid: sipsiwn ym Metws Gwerful Goch a Llanfihangel Glyn Myfyr.

24. Tâp 1065

1. Sipsiwn: teulu'r Woodiaid. Ymddwyn yn dda. Angladd Dr John Sampson. Chwalu ei lwch ar y Foel Goch. Dawnsio'n dda.
2. Clwb yr Oddfellows. Cinio ar Galan Mai. Talu mwy na chlwb Cerrigydrudion.
3. Jac Phylip: digio pobl y Derwydd mewn araith i'r Oddfellows (cyhuddiad o ddwyn).
4. Stori ddigri: Robert Owen, Pentre Draw, yn datgelu cyfrinach yn ei hurtrwydd.
5. Jac Phylip. Byw yn elusendy Cerrigydrudion. Stori ddigri: 'Be wnes i?'
6. Dafydd Jones - englyn 'Glan Alwen'.
7. Beirdd Hafod Elwy: cyfarfod â'i gilydd i sgwrsio a barddoni.
8. Cân y mul (1 pennill 8 llinell). Anhysbys.
9. Pennill am wisgo gwasgod wen cyn priodi a chlocs ar ôl priodi. Anhysbys.
10. Huw Jones: cân am ddyn yn llyncu esgidiau (1 pennill 8 llinell).
11. Stori ddigri: Tom Graigerchen yn sgrifennu llythyr Saesneg ato'i hun. Huw Jones yn gorfod cyfieithu.
12. Huw Jones: cyfieithydd llythyrau Saesneg.
13. Huw Jones: cân am Farc Jones yn canlyn morwyn.
14. Priodi a chymysgu dosbarthiadau cymdeithasol.

25. Tâp 1066

1. Pennill 'Yng Ngherrigydrudion mae'r coedydd yn brinion'.
2. Huw Jones: cân am ddyfodiad y rheilffordd i Hafod Elwy (2 linell).
3. Y rheilffordd arfaethedig - methu o achos 'rôg'.
4. Bardd Crwst: cân am gariad 'merch fonheddig' at 'fab ffermwr'.
5. Isaac Jones: penillion cas i'w gariadon (2 bennill a 2 linell).
Isaac Jones yn sôn am hylltod 'Meri o Gorwen' wedi derbyn llun ohoni.
6. Isaac Jones: ateb ffraeth am sychder tafod Deifas.
7. Rhigymau amrywiol (Darnau mân o 5 rhigwm).

8. Cyflogi gwas mewn ffair. Y cymwysterau a ddisgwyliai meistr gan was.
9. Gweision fferm: rhai'n mynd ymhell o Hafod Elwy er mwyn anturiaeth.
10. L.T.E. yn was yn Hafod Llan Isa a Phenffordd Ddu, Llanelidan.
11. Stori ddigri'r gwas yn diawlio. J.J. ei feistr yn ei glywed.
12. Gweision o fechgyn amddifad. Albert.
13. Cytundeb gwas a meistr. Swllt o ernes. `Troi'r ernes yn ôl'. Dim gwyliau.

26. Tâp 1067

1. Cyflogi gwas. `Troi'r ernes yn ôl'. `Aros yn ei le'. Cyflogi cyn `Clame'.
2. Gwas newydd yn mynd i fferm - cist i gario'i eiddo. ('Bocs tun'). Eiddo gwas, e.e. esgidiau, mân daclau, etc.
3. Lewis T. Evans fel llenor ifanc. Ei gasgliad o lyfrau: *Cymru'r Plant, Y Drysorfa*, Anterliwtiau Twm o'r Nant.
4. Lewis T. Evans - englyn `Yr Wydd'. (L.T.E. yn 12 oed).
5. Gweision a weithiai y tu allan i Hafod Elwy - dychwelyd dros y Sul.
6. Dim `prawf darbodusrwydd' ym mhrofiad L.T.E.
7. Llofft y gwas. Cynnwys yr ystafell: gwely sbrots, muriau moel, bocs tun, bwrdd.
8. Morynion yn glanhau'r llofft. Trefniadau ymolchi. Sebon.
9. Canhwyllau'r gweision.
10. Dillad gweision fferm. Trowsus rib. Esgidiau crydd cartref. `Smoc'.

27. Tâp 1068

1. Dillad gweision. Clos pen-glin a legins. `Legins bwff'. Clos pen-glin `woollen cord'.
2. Brethyn. Mynd â gwlan i ffatri Penmachno a chael brethyn yn ôl. Ffatri hefyd yn Glasfryn.
3. Teiliwr: George Cerrigydrudion.
4. Esgidiau. Crydd yn Glasfryn. 16 swllt y pâr.
5. Dillad isaf: syrbyn, crys, trôns. Sanau - mam L.T.E. yn eu gwneud iddo.
6. Capiâu. `Cap a chlustiau'. L.T.E. heb glywed am `gap stabal'.

7. Crafftauau gwynion ar y Sul. Cadachau weddill yr wythnos. Strapiau a choleri lleidr. Coleri gwynion, stiff.
8. Gweision yn diystyru deddfau iechyd. Gwisgo dillad gwlyb.
9. Cael `sub' i brynu dillad ar ganol y tymor. Sêl ddillad. Dinbych: canolfan siopa Hafod Elwy.
10. Y llofft stabal - cynnes. Nid felly y llofft `uwchben y briws'.
11. Prydau bwyd. `Bwrdd bach' a `bwrdd mawr'. `Dewisolion'.

28. Tâp 1069

1. Trefn yr eistedd wrth y bwrdd bwyd.
 - a. Tai'n-y-foel: `bwrdd bach' - gŵr a'r wraig, dwy ferch a morwyn.
 - b. Tŷ Gwyn: `bwrdd mawr' - carter a'r gweithwyr.
 - c. Plas Hafod Maidd: dwy ystafell wahanol i'r gweision a'r perchnogion.
2. Llestri ac offer bwyta. Llwyau.
3. L.T.E. yn gweithio am gyfnod yn y Bermo a Llanuwchllyn. Gweld fawr ddim gwahaniaeth rhyngddynt ac Uwchaled.
4. Cadw dyletswydd. Tŷ Gwyn a Thai'n-y-foel - 10 munud amser brechwast. Pentre Draw, Tŷ Ucha Ffrithoedd a Than-y-graig, ond nid Thomas Jones, Cerrigelltgwm. Diwygiad 1904 - cynyddu'r arfer am gyfnod byr.
5. L.T.E. a'i fam yn Nhŷ Capel, Pentrellyncymer. Ap Glaslyn yn `lojo' yno. Hwyl gydag ef.
6. Prydau bwyd. `Shot' adeg cynhaeaf gwair. Brechwast: bara llaeth, brwes, brechdan a the. Cinio: cig moch, tatws, pwddin reis. Dim gwahaniaeth yn Hafod Elwy rhwng bwyd meistr a gwas.

29. Tâp 1070

1. Prydau bwyd. Uwd i swper. Bwyd allan yn y caeau adeg cynhaeaf.
2. Enwau'r amrywiol weision: `ledar', hwsmon.
3. Y meistr, nid y pen gwas, yn penderfynu trefn gwaith.
4. Hogyn: ei waith. Hel gwartheg, carthu'r corydd, cludo glo, amrywiol dasgau. `Twyso'r gribin' adeg cynhaeaf.
5. Cartar - gofalu am y ceffylau.
6. Cowmon - gofalu am y gwartheg.
7. Gweithio cyn brechwast. Cael gorchmynion y dydd.

8. Amser. Watsys gan bawb. Cyn hynny corn. Er enghraifft, corn Tai'n-y-foel.
9. Canlyn y wedd. Profiad L.T.E. o hyn.
10. Cyflogau gweision fferm. L.T.E. 9½ oed: siwt o ddillad a 3/6. 13 a 14 oed: £1 y chwarter. Cyflog uchel Plas Hafod Maidd: £22. Gweithio ar y cynhaeaf yn y Bermo a Llanuwchllyn: gini yr wythnos.

30. Tâp 1071

1. Cân am genfigen y gwas at Siôn y Teiliwr (27 llinell). Awdur: Taliesin o Eifion.
2. Cyflogau. L.T.E. yn cael £5 y mis yn chwareli Blaenau Ffestiniog. Dychwelyd i Uwchaled. Tai'n-y-foel: 10/- yr wythnos. Tai'n-y-foel yn cadw cyfrifon.
3. Gwaith ffermydd yn gorffen am 8 pm. Clociau `awr yn ôl'.
4. Difyrrwch gweision gyda'r nos.
 - a. Coetio. Yng nghanol Pentrellyncymer. Pob oedran yn ymuno. Dim rhagfarn yn erbyn coetio - ei ddiystyru.
 - b. Hela sgwarnogod a chwningod, y tu allan i'r gyfraith. Dim llawer o gwningod yn Hafod Elwy. Dim triciau gyda'r nos i L.T.E. - dim calon.
 - c. Yn y gaeaf, cyfarfod i sgwrsio yng nghartref Marged Tomos. Te a chacen frith. Hanes L.T.E. a Morus Roberts yn gwylltio Marged gyda'u `Saesneg' honedig. Adrodd straeon ysbryd o *Cymru Fu*.
5. Thomas Jones, Cerrigelltgwm: stori ysbryd. Clywed `sŵn traed' yn y nos, ond gweld neb.

31. Tâp 1072

1. Diwedd stori ysbryd: Thomas Jones, Cerrigelltgwm, yn clywed sŵn traed yn y nos.
2. Gweision: cymdeithasu gyda'r nos.
3. Hafod Elwy Uchaf yn llai cyfarwydd i bobl Pentrellyncymer na Hafod Elwy Isaf.
4. Gyda'r nos yn y gaeaf - gweision yn mynd at y tân yn y fferm. L.T.E. yn Nhŷ Gwyn.
5. Gyda'r nos yn Hafod Llan Isa. Cyfarfod a chwmmnia. Yn y cwmni: Huw Jones, Robert Morus, Dafydd Jones, Tai Ucha. Adrodd straeon.
6. Canu emynau ar nos Sul gyda Marged Tomos. (Cyfeiriad byr.)
7. Gweision fferm ac offerynnau cerdd. L.T.E. a'i `stymant' ac ati.

8. Hanes Dafydd Roberts yn ceisio efelychu Cornelius drwy wneud ffidil iddo'i hun. Methu.
9. Noson gwneud cyfleth yn Waun Lwyd. Cân a genid gan Ffransis Jones yno: 'Mae gen i bâr o glocsiau ...'.
- 10 Rhigwm John y Bwt: 'Roedd Elin yn dlos ...' (4 llinell).
11. Noson gwneud cyfleth - ei natur. Gwneud cyfleth. Adrodd straeon.
12. Llofft stabal - dim cyfarfodydd canu ym mhrofiad L.T.E. ond rhai yng Nghwm Penanner.
13. Gweision a'r tafarndai.

32. Tâp 1213

1. Gweision: diota. Diarddel o'r seiat am fynd ar y sbri. Mynychu tafarnau.
2. Caru: mynd i 'gnocio'. Disgrifiad ohono. Bachgen a merch yn mynd i'r gegin, nid i'r gwely. Sôn lleol am Huw Jones yn tadogi plentyn. 'Cnocio' yn dod i ben wedi Diwygiad 1904.
3. Nos Sul. Pobl ifanc yn mynd adref yn gwmnïoedd o'r capel. Swper awr yn hwyrach nag arfer (9 pm).
4. Nos Sadwrn. Nid noson garu. Mynd i yfed a rhodio. Gweision yn unig - morynion yn 'aros adre' nos Sadwrn. Paratoi ar gyfer y Sul: y gorchwylion yn Nhai'n-y-foel.
5. Gweision a'r capel. Dim gorfodaeth arnynt i fynd ar y Sul.
6. Marged Tomos: L.T.E. a gweision eraill yn mynd i'w thy rhwng prydau bwyd ar y Sul.
7. Dillad dydd Sul. Dillad gorau.
8. Dihuno'r gweision yn y bore. Y 'giaffar' neu'r morynion - amrywio o fferm i fferm.
9. Stori ddigri: codi'r gweision o'u gwelyau drwy sgrechian 'Tân!'.

33. Tâp 1214

1. Gweision: salwch. Pan yn sâl, naill ai aros yn eu lle gwaith neu fynd adref.
2. Hanes mab Dafydd Jones, Tai Ucha, a'i salwch ym mlwyddyn yr eira mawr. Gorfod ei gadw yn Nhai Ucha am wythnosau oblegid yr eira.
3. Dafydd Jones, Tai Ucha: hanes amdano'n yfed ffishig ei fab sâl, 'Dafydd Bach', a rhoi cwrw yn y botel.

4. Ann Jones, gwraig Llew Hiraethog - diotreg ar y slei.
5. Gweision: salwch. Effaith hyn ar y cytundeb, cyflog, ac ati.
6. Gweision fferm: ymweld â'u cartrefi - ar y Sul, gan amlaf.
7. Golchi dillad gweision fferm. Gwraig leol yn golchi, fel arfer, e.e. Marged Tomos, Graig Hir.
8. Gweision fferm: gwyliau a diwrnodau rhydd. Cael ambell i ddiwrnod i fynychu ffair neu eisteddfod. Gweision yn mynd i sioeau i arddangos anifeiliaid. Dim llawer o ddiwrnodau rhydd rhwng newid cyflogwyr. L.T.E. yn ymweld â'i frawd yn Llandudno am dridiau - hen was arall yn ffromi ar hyn.
9. Priodi - cael y Sadwrn yn rhydd. Dychwelyd i'r gwaith ddydd Llun.

34. Tâp 1215

1. Hanes diwrnod priodas Huw Tomos. Priodi a gweithio yr un diwrnod.
2. Marged Tomos: 'Hen lester gadd aml i rec'. Cerdd.
3. Priodasau ymysg gweision fferm. Eu cynnal ar 'Glame'. Marc Jones yn gweithio ymhell i ffwrdd ar ôl priodi.
4. Ty gwas ar dir fferm. Dim rhent. Ty gwael.
5. Hanes teulu cynnil yn medi ffrwyth eu haberth. (Defnyddio cerrig yn lle cadeiriau.)
6. Pennill: 'Bûm yn byw yn afrad, afrad ...' (Cyfeiriad byr, 2 linell yn unig).
7. Gwas yn byw mewn tŷ ar dir fferm. Cael ei brydau bwyd ar y fferm.
8. Gweision fferm: cyflogi am dridiau - arfer amhoblogaidd.
9. Cyflogi wrth y Groes. Y Groes yn Ninbych. Traddodiad lleol am un arall ger Dinbych. Dim eglurhad gan L.T.E.
10. Y cytundeb rhwng gwas a meistr. 'Wedi rhedeg': torri gwasanaeth ar ganol tymor. 'Cardota prydau' - cyni gwas di-waith. Ambell dro, ffermwr yn pryfocio ffræe er mwyn gorfodi gwas i adael. Gweision yn fodau israddol eu statws yn y gymdeithas.
11. 'Ieud anghydmarus'. Gwas yn priodi merch ffermwr.

35. Tâp 1216

1. Gweision yn priodi merched ffermydd. Dim enghraifft yn Hafod Elwy, ond esiAMPL yn Nhai'n-y-foel.
2. Plant siawns. Diarddel y fam o'r *setat*. Plant siawns yn ddigon cyffredin yn Hafod Elwy. Huw Jones wedi tadogi amryw. Agwedd cymdeithas: mwy didaro bryd hynny na rwan. Merched Lowri Glan Alwen - cael amryw o blant siawns. Tad yn talu am gynhaliaeth mam ddi-briod a'r baban. Enghreifftiau lleol o blant siawns a'u rhieni.
3. Gweision: 'dod ymlaen yn y byd'. Hanes Robert Morus yn llwyddo i fynd i Greigiau Bleiddiau. Arian 'ar goel': benthycu arian i brynu fferm. Sam Ifans a Robert Roberts - cymwynaswyr ariannol.
4. 'Tir cornchwiglen' - tir gwael.
5. Gweision: 'dod ymlaen yn y byd'. O gael fferm, byddai gwas yn ymuno yng 'nghylch y frenhiniaeth'. Trefniadau rhwng meistr a gwas a feddai dir - amrywiaethau.
6. Dywediadau am weision.

36. Tâp 1360

1. Stori am Ddafydd Roberts. Nanni yn torri mawn.
2. Disgrifiad o dorri mawn: 'torri'r geulan'.
3. Torri mawn: geirfa. Cyfeiriadau byrion at 22 o dermau, e.e. 'mawndir', 'mawn blewog', 'siwrwd mawn'.
4. 'Noah's flood': traddodiad am goed o gyfnod y dilyw mewn mawn. Nafis y gwaith dŵr yn sôn am 'Noah's flood'.
5. Torri mawn: geirfa.
6. Mawnogydd Hafod Elwy: Ffridd y Pentre a'r Lafarddu. Cytundebau i dorri mawn. Er enghraifft, torri tua 2 raw yn gyfnewid am ddiwrnod o gneifio. Y Lafarddu: ymestyn am 5 milltir o Dal-y-cefn Isa i gyfeiriad Hiraethog. Yn Hafod Elwy, dim mawnog ar dir comin. Mawnog Caban Dafydd.
7. Mawnog y Brynie, Tŷ Gwyn.

37. Tâp 1361

1. Mawnog y Brynie (Tŷ Gwyn).
2. Mawnog Tan-y-graig a'r cytundeb â'r gweision. Hawl ganddynt i dorri mawn - rhan o'u cyflog.

3. Mawnygydd Hafod Elwy: eu lleoliad. Er enghraifft, Hafod Lom, Hafod Llan Bach.
4. Ffridd Person: esboniad ar yr enw.
5. Pannwr Clyd/Parlwr Clyd; dim esboniad ar yr enw.
6. Mawnygydd Hafod Elwy: eu lleoliad a'u natur. Er enghraifft, Hafod-yr-onnen, Bryn Hir, Swch Gaer Wen, Elor Garreg, Y Ffrithoedd. Mawnygydd ar dir preifat i gyd. Dim ar dir comin.
7. Cytundeb i dorri mawn: telerau. Ambell waith, tenant yn cael torri mawn ar dir ffermwr yn gyfnewid am wasanaeth, e.e. rhwystro defaid i grwydro. Y cytundebau yn amrywio. Diwrnod o waith, e.e. cneifio, dyrnu, yn gyfnewid am ddiwrnod o dorri mawn. Enghreifftiau o gytundebau o'r fath.
8. Cynhaeaf mawn.

38. Tâp 1362

1. Y tymor torri mawn. Cychwyn wedi ffair Cerrigydrudion yn Ebrill. L.T.E. heb glywed unrhyw goelion parthed yr amser i gychwyn torri.
2. Y filfyw. Dywediad: 'Pan welir dail y filfyw, bydd byw yr eidion du'.
3. Mawn: coelion. (L.T.E. heb glywed am rai).
4. Y tymor torri mawn. Ffermwyr yn dechrau torri mawn wedi iddynt orffen hau. Tywydd sych, ond nid poeth, oedd orau.
5. Telerau cyflogi: L.T.E. a thorwyr mawn eraill. L.T.E. yn gweithio 'yn y patsh'. L.T.E. yn dechrau 'didonni' yn 16 oed. Talu torwyr yn ôl y rhaw. Rhwng 1914 a 1939 L.T.E. yn codi rhwng hanner coron a 4/6 y rhaw. Trefniadau bwyd i dorwyr. Ffransis Jones, Tom Graigerchen, Meirion Goch: partneriaid torri mawn. Partneriaid L.T.E.: Ifan Owen a Jacob y Geuddren.
6. Edward Edwards, Llechwedd: torrwr mawn enwog.
7. Hanes digri: Thomas Jones, Cerrigelltgwm, a Richard Jones yn betio ar alluoedd torri mawn Wil y Foty.
8. Torri mawn: ni chydweithiai ffermwyr Hafod Elwy â'i gilydd i dorri mawn, eithr ceid hyn yn ardal Llanuwchllyn.
9. Cân am dorri mawn: 'Mi basiwn bob hen delpyn' (2 linell yn unig.)
10. Profiad L.T.E. fel torrwr mawn.

39. Tâp 1363

1. Profiad L.T.E. fel torrwr mawn (parhad). Ni holai cyflogwr was am ei brofiad o dorri mawn.
2. Sychu mawn. Codi pentyrrau.
3. 'Trybedd' - teclyn o flaen y lle tân.

4. Sychu mawn. `Rhencio' pentyrrau mawn. Esboniad ar sut y sychid mawn. Cyfeiriad y gwynt ddim yn bwysig. Wythnos i bythefnos i wneud y gwaith. Defnyddio mawn llynedd - ansawdd gwael. `Clapie mawn' - briwsion.
5. Teisi mawn. Codi tas os nad oedd `ty mawn' ar gael i'w storio. Ei godi: `eilio mawn'. Cludo'r mawn o'r fawnog mewn trol neu `ferfa freichiau'. (Berfa freichiau: `clwyd fawn'). Disgrifiad o das fawn - hyd a lled. Ambell dro ceid to brwyn arni. `Hofel fawn'.
6. Mawn fel tanwydd. Dim uned i fesur mawn.
7. Gwaith dwr.
8. Mawn fel tanwydd. Trefniant mewn fferm rhwng y feistres a'r forwyn; `ciafn', grât. Rhagoriaeth mawn: gwres. Diffygion: llwch, arogl. Disgrifiad o'r dechneg o gadw tân i fud-losgi drwy'r nos.

40. Tâp 1364

1. Mawn fel tanwydd. Mawn a choed yn cyd-losgi'n gampus. Defnyddio glo yn niffyg mawn. Glo yn rhad.
2. Crasu bara mewn lludw tân mawn. Disgrifiad o'r dechneg.
3. Gwerthu mawn. Ni werthai ffermwyr fawn.
4. Darganfod coed a phicell efydd yn y mawn.
5. Diwedd torri mawn yn Hafod Elwy - dyfodiad y `Gwaith Dŵr' oedd dechrau'r diwedd. Diwedd terfynol: yr Ail Ryfel Byd.
6. Dim defnydd o goed (ar ei ben ei hun) fel tanwydd yn Hafod Elwy.
7. Grug a phoethfol fel tanwydd. Dyn o Gefn Brith gynt yn ei gasglu a'i werthu.
8. Tail gwartheg fel tanwydd. Un enghraifft (tra anelwig) gan L.T.E.
9. Torri mawn. Marcio. Torri'r `croen' ymaith. `Twyrch tyn'. Gwlybanaeth yn rhwystr. Torri mawnen yn llyfn, nid ar osgo. Mawnen: 4 modfedd sgwâr, hanner llath o hyd. (Ymdriniaeth faith).
10. `Ffarwel i Hafod Elwy...' (2 linell yn unig).
11. Torri mawn. Torri mwy nag un haen.
12. Offer torri mawn. Pren onnen oedd orau. Bob y gof (R.J. Hughes) yn gwneud rhawiau i L.T.E.

41. Tâp 1365

1. Rhigwm am was a morwyn wrth dân o fawn (4 llinell).
2. Lladd moch yn Hafod Elwy - arfer cyffredinol.
3. Lladdwyr moch: John y Bwt, Robert Huws, a Huw Jones.
4. Robert Jones, Cerrigydrudion: ffraethineb wrth ladd mochyn.
5. Rhigwm Robert, Cerrigydrudion, wrth ladd mochyn (4 llinell).
6. Lladdwyr moch a'u gwaith. Bob Jones, Cerrigydrudion. Statws `dyn cyffredin' i laddwyr moch yn y gymdeithas.
7. Paratoadau fferm ar gyfer lladd mochyn. Dŵr poeth, cambren a phegiau. Lladd yn y briws neu ar y buarth. `Rhewl dando' yn Nhan-y-graig - ystafell arbennig at ladd mochyn.
8. Dafydd Roberts, Llanfihangel Glyn Myfyr - dyn lladd mochyn. (Cyfeiriad byr).
9. Lladd mochyn yn Nhafn-y-foel a Thŷ Gwyn - dim angen cymorth. Ambell waith, gwyr a drigai mewn tai cyffredin (nid ffermydd) yn helpu - ond anaml. Dim angen help ar Blas Hafod Maidd.
10. Lladd mochyn (cyfeiriad byr).
11. Sylw Huw Jones wrth L.T.E. ifanc adeg lladd mochyn.
12. Lladd mochyn. Disgrifiad o'r dechneg a'r offer. Cyfrinach y lladd.
13. Dafydd Jones, Tai Ucha, a'i gerdd wrth ladd mochyn. `Aeth Ioan Pader...'
14. Y defnydd a wneid o gorff mochyn wedi'r lladd: pwddin gwaed, swigen.

42. Tâp 1557

1. Mochyn yn Tai Ucha yn siarad (`naddo')!
2. Clagwydd yn siarad (`Dowch i nôl bwyd')!
3. Robert Llwyd Tomos, Elor Garreg. `Be fasech chi Lewis Evans, tase chi wedi cael coleg?' Ateb: `Torrwr bedde!'.
4. Ceiriog a'r gerdd `Ifan Benwan'. (Gw. *Oriau'r Hwyr*, tt. 100-3; *Oriau'r Bore*, t. 105.)
5. Michael D. Jones yn gorfodi dyn i werthu ei gi oedd yn gannwyll ei lygad. Methdalwr.
6. Michael D. Jones yn yfed te.

7. Cae'r Odyn, Ffrithoedd. Crasu yd. Odynnau yd. Dull o grasu. Manylu. Y⁷⁸³
craswr yn mynd o gwmpas.

8. John Hughes, Melin Glasfryn.

43. Tâp 1558

1. Melin Glasfryn.

2. Cerdd yn y felin.

3. John Hughes y melinydd.

4. Ffermwyr Hafod Elwy yn mynd i felin Glasfryn a Phentrefoelas.

5. L.T.E. yn gogru ar gyfer 'silio yd'.

6. Cysylltiad y ffermwyr â'r melinydd.

7. Ieuan y Foelas, melinydd Pentrefoelas.

8. Robert Roberts, Melin Bwlch-y-beudy.

9. Englyn Hugh Evans i'r wyntyll.

10. Edward Thomas Roberts, brawd Robert Roberts.

11. Thomas Williams, Graigerchen, yn ffustio yd.

12. 'Gabriel aeth i nadu...' Cerdd gan Jac Tŷ Twyrch.

44. Tâp 1559

1. 'Jac Llygid Bychin'.

2. 'Cwel Frenin'. (Dwalad, yr hogyn gwirion, eisiau mynd yn frenin.)

3. 'Bach oedd Sant o'r chweched ganrif
Duwiol wr o uchel ach...'
(rhigwm i egluro Eglwys Bach.)

4. Catrin Lloyd yn casglu grug a phoethfol o'r mynydd. Tlodi.

5. 'Pam Arglwydd y gwnaethost Foel Gasnach mor serth,
Ac Ifan y Seler mor stiff?' (Bob Dei.)

6. 'Maen nhw'n dweud yn Abergele
Bod fy ngwraig i'n dwgyd gwydde...'
Pennill a genid gan Joseph Davies adeg 'drefio grows'.

7. 'Yn Foty Wen eleni
Mae cowmon diog iawn...'
Rhigwm gan forwyn Foty Wen.
8. 'Yng Ngherrigydrudion mae'r stesion i fod...'
Rhigwm i'r amgylchiad.
9. 'Ym mhentref Llansannan mae'r stesion i fod...' (Huw Roberts yn canu.)

45. Tâp 1596

1. Ifan Jones y Gwydrwr. Ei waith yn Hafod Elwy.
2. Jac y Post. Rhigwm: 'Llau'.
'Mi glywais sôn gan un neu ddau,
Fod Jac y Post yn magu llau...'
3. Cario post cylch Hafod Elwy. Hannah Jones, Tŷ Capel, yn rhannu llythyrau. 1890: Robert Parry, bob dydd.
4. Torri ar anifeiliaid. William Dafis yn torri yn Hafod Elwy.
5. Englyn Llew Hiraethog i 'Tomos', ceffyl Wil Harri, 'Wil y Torrwr'.

46. Tâp 1597

1. Yr englyn i 'Tomos Wil', ceffyl Wil y Torrwr. (Parhad.)
2. 'Harri Bach', tad Wil. Gwaith Wil Dafis.
3. Lladd moch. Y cydweithio rhwng fferm a fferm.
4. Torri a chynaeafu gwair. Y cydweithio.
5. Ifan y Felin. Hen bennill:
'Ifan y Felin a'r hen fules ddall
Yn cario blawd amydd i hwn ac i'r llall;
Weithiau'n cael ceiniog ac weithiau'n cael 'run,
A dro arall mynd adref a chic yn ei dŷ.'
6. Buwch at y tarw. Diwrnod yn y cynhaeaf yn dâl. Cael swllt weithiau am ddod â buwch at y tarw.

47. Tâp 1598

1. Robert Hughes, Ty'n-cefn. Gwerthwr llyfrau. Cerdd Anthropos iddo: 'Pentre fy mebyd, yr hen Dy'n-y-cefn...'
2. Cacen frith. Dywediad: 'Mi groeswch fynydd mawr'.
3. 'Robin y Gregwr' neu 'Bob Maip'.
4. Plannu tatws - rhes neu ddwy. Tâl am hynny: diwrnod o waith yn y cynhaeaf.
5. Cneifio. Tŷ Gwyn a Phentre Draw yr un diwrnod. Cydweithio.
6. Hel a chneifio yn Hafod Llan Isa.

48. Tâp 1599

1. Cneifio yn Hafod Llan Isa. (Parhad.)
2. Mannau eraill: Pentre Draw, Elor Garreg, Tŷ Gwyn, Hafod Llan Ucha.
3. Pwt o rigwm.
4. Ffustio yn Hafod Llan Ucha i Robert Morris.
5. Tom Graigerchen. Ffustiwr.
6. 'Wil Run' a Dafydd Jones, Hafod Llan Bach - dau bartner yn ffustio.

49. Tâp 1600

1. Ffustio yn Uwchaled.
2. Adeg dyrnu. Diwrnod dyrnu. Gweithwyr.
3. Bwyd. Ffustiwr yn llafarganu rhigwm. 'Cynffon penog...' Bwyd gwael yn gwella. (Hen stori werin.)
4. Cywydd 4 llinell.
5. Cythreuliaid yn helpu ffustiwr. Hen draddodiad.
6. Cyflog y ffustiwr. Natur y gwaith.
7. Y ffust. Enwau. Defnyddiau. Mesuriadau. (Parhad ffustio ar L.T.E. 54)

1. Y Tylwyth Teg. Cred Bob Hughes, Cipar. Sgwarnogod.
2. Tystiolaeth Lewis Evans, ewythr L.T.E.
3. Mab John y Bŵt (Byw yn Trwyn Swch, Ysbyty Ifan), un o blant y Tylwyth Teg.
4. Capiâu cochion. Arian y Tylwyth Teg. Catiau. Bydwragedd.
5. Cred: y Tylwyth Teg yn treulio saith mlynedd yn yr awyr, saith ar y tir a saith ar y môr.
6. Y Diafol.
Hanes chwarae cardiau ar Bont Rhydlydan. Dyn â thraed ceffyl ganddo.
7. Ysbrydion Plas Iolyn. Y Doctor Coch.
8. Huw Roberts, Bryn Heilin, yn saethu chwaden wyllt ar y Sul. Boddi. Cân i'r amgylchiad (2 linell).
'Huw Roberts o Fryn Heilin ...'
9. Hel cnau ar y Sul. Jobyn o gnau. Llaw arall yn gafael ynddi. Y Diafol.
10. Ymgais i adeiladu eglwys ger Moel Eglwys. Diflannu yn y nos. Y ddaear yn ei llyncu.
11. Pethau'r Diafol. Dail y Groes (Dail Cas Gan Ddiafol). O dan y Groes adeg croeshoelio Iesu Grist.
12. Adeiladu Capel Pentrellyncymer yn y fan lle safai hwch ddu.
13. Ysbryd Hendre Arddwyfan. I'w weld ar y groesffordd.

51. Tâp 1648

1. Ysbryd Hendre Arddwyfan (parhad). John Morris, Hafod Lom, yn caru yno. Gweld merch mewn gwisg wen yn croesi'r ystafell.
2. Jac Phylip (Morus) yn cymryd tri math o bridd. Gweld dyn bach â chap coch ganddo.
3. Nel Richards o Gefn Brith yn codi ysbrydion yn sgubor hen feudy yn perthyn i Hafod-y-maidd. Cylch ar y llawr.
4. Ysbryd y marw.
5. L.T.E. yn gweld ysbryd ar ffurf ci hir ger Parc Newydd.
6. Brathiad ci cynddeiriog.

7. Ysbryd y Bwrdd. Ei chwaer yn Hafod Llan Isa. Eistedd ar stôl drithroed.⁷⁸⁷
8. Y Gist Aur ar Fwdwl Eithin. Arian Heilin y lleidr ac arian Bryn y Gwynt. Chwarae `ysbryd y bwrdd' i gael gwybod ble i'w ddarganfod. Angen ceiliog gwyn wedi'i eni ym Mawrth a'r ŵy wedi'i ddodwy ym Mawrth. Ei osod ar ben ffon. Symud y ffon ar hyd y mynydd. Pan ganai'r ceiliog, dyna'r man lle'r oedd yr aur. Dafydd Rhos Fraith yn rhoi cynnig arni.

52. Tâp 1649

1. Y Bo-lol.
2. Y Ladi.
3. Hen Ddyn y Lleuad.
4. Gwrachod a Dynion Hysbys.
5. * Jane Williams, Graigerchen, yn witsio. Darllen y Salm Ddu.
6. Sipsiwn yng Nghernioge Mawr yn witsio.
7. Sipsiwn yng Nghraig Rhydgregog, Cefn Brith.
8. Dyn o Lanelidan yn gwella brath ci cynddeiriog.
9. Dyn hysbys yn rhoi potel i hogyn. Dyn bach yn dod allan o'r botel ac yn mynd i mewn yn ei ôl.
10. Gwisgo modrwy o risial am wddf rhag cael eich rheibio. Darganfod modrwy o'r fath.
11. Nant-y-wrach. Murddun yn Llanfihangel.
12. Buches-y-wrach. Mynydd Tai'n-y-foel.
13. Chwythu ar y `ryri' (eryr) i'w wella.
14. Chwys y fwyell yn gwella'r ryri.
15. Dic Sbot yn dewino. Pawb a phopeth yn troi.
16. Ffynnon Ifan, Cefn Brith. Gwerth meddyginiaethol.

53. Tâp 1650

1. Ffynnon Ifan (parhad). Gwella Ifan - cloff.
2. Ffynnon arall yng Nghefn Brith. Edrych oedd eich enw ynddi. Lwc.
3. `Braich y Cawr'. Carreg fawr uwchben Cefn Brith.

4. 'Ôl Troed y Cawr': carreg ar dir Llechwedd Llyfn, Cefn Brith. 'Ôl Troed⁷⁸⁸
Bachgen y Cawr' hefyd.
5. Foty'r Gŵr Cethin (cawr): murddun ym Mhentrellyncymer. Dim o'i ôl.
6. Llyn Dau Ychen, Pentrellyncymer. Traddodiad: dau ychen yn boddi yn y
llyn wedi i Robin Ddu Ddewin roi'r Diafol ar eu cefnau.
Ystyr: 'llyn y ddau darddiad'.
7. Stori werin: Robin Ddu a'i Frodyr.
Dau frawd Robin yn ceisio cael gwared ag o. Lladd ei fuwch. Robin yn
mynd â'r croen i'r farchnad. Brân yn disgyn arno - 'brân yn dweud pob
peth'. Ei gwerthu i'r Person am £100.
Proffwydo:
a. Pwys o de yn siwgr.
b. £100 dan garreg yr aelwyd.
c. Cythraul o dan garreg yr aelwyd.
Robin yn prynu 100 o ddefaid. Cael ei ddal, ond lluchio hen wrach i'r môr
yn ei le. Do! adre. Ei frodyr yn gofyn: 'Ble cest ti'r defaid?' Robin yn ateb:
'Yn y môr.' Y brodyr: 'Tafl ninnau.'
Clywodd y stori gan ei ewyrth, Lewis Evans. (Gw. hefyd tâp 4050.)
8. Stori'r Bwrn Hir. Dyn â baich ganddo yn dod i ddrws Plas ger Y
Drenewydd. Dyn tu mewn i'r baich. Bwriadu lladrata. Cael ei ddal. (Gw.
hefyd y stori gan Niclas Bennett a thâp 4051.)
9. Proffwydoliaeth Robin Ddu Ddewin am Llyn Dau Ychen - 'cyn lleied â
chaead buddai'. Englyn Llew Hiraethog i'r Llyn.
10. Llyn Alwen a Llyn Aled - y traddodiad. Cyfeiriadol.

54. Tâp 1734

1. Ffustio (parhad o L.T.E. 49). Mesuriadau'r 'cyplyn'. Gwneud y ffust. Coes
cribin.
2. Dyrnu yn y sgubor. Tua 1906, yn Hafod Llan Isa. Cyflog: 9 swllt yr
wythnos a bwyd.
3. Disgrifiad o'r gwaith.
4. Gogru.

55. Tâp 1735

1. Ffustio.
2. Dyrnu fesul dau.
3. Dyrnu yn y tŷ. Edward Roberts, Tan Wiars.
4. Bras-ddyrnu.

5. Stripio yd (ar ffrâm buddai heb ffust.)
6. Cadw'r ffust ar `beg ffust'.
7. Nithio. Dull
 - a. Peiriant nithio.
 - b. Gwyntyll.
8. Colio haidd.
9. L.T.E. yn nithio yn Nhai'n-y-foel.
10. Mathau o geirch:
 - a. `Pengronyn' (grawn gorau.)
 - b. `Cesel gyrchen' (mân yd.)
 - c. `Trydydd gerchen' ('tinion'.)
 - ch. Blewgeirch: ceirch du.
11. Mathau o haidd:
 - a. `Haidd garw'. (Pedair ochr iddo a chol. Go fân.)
 - b. `Haidd rhywiog'. (Un ochr iddo. Da.)
 - c. `Haidd yr web'. (Lletach. Gwell na'r un rhywiog. Y gorau.)
 - ch. `Coch y maes'. (Haidd coch.)

56. Tâp 1736

1. Nithio. Cadw'r grawn a'r us.
2. Defnyddio'r grawn a'r us. Defnyddio'r gwellt. `Dau osod yn y dydd' i'r gwartheg. Porthiant. (Mân wellt a phylp swêj.)
3. `Nithio efo gwynt y drws.'
4. Cydweithio gyda'r peiriant nithio.
5. `Pwnio a ffustio mewn penyd...' (darn o gywydd.)
6. Pennill gan Hugh Jones, Clust-y-blaidd.

Hynafiaid Siôn y Cobler
Yn dyrnu 'Nghlust-y-blaidd,
Er cymaint oedd eu diogi,
Fe ddygson bwn o haidd.
Y gŵr a'r wraig yn nithio
Yng Nghraig Barcutan Bach,
Y gŵr yn llenwi'r gogre
A'r wraig yn dal y sach.
7. Robert Dafis, Glan-y-gors. Racsiog. Trampar yn gofyn iddo: `Ers pryd 'rwyd ti yma?'

8. Stori'r gath, y ceiliog a'r ysgol.
 Gŵr Tan Bwlch, Cefn Brith, yn gwneud ei ewyllys i'w dri mab.
 Y mab cyntaf yn cael cath. Mynd i wlad heb gathod. 'Pwy wneith aros ar
 ei draed y nos i ddal y llygod?' Dim angen. Y gath yn eu dal. Y mab yn
 cael £100.
 Yr ail fab yn cael ceiliog. Mynd i wlad heb geiliogod. 'Pwy wneith aros ar
 ei draed i wyllo'r dydd...?'
 Dim angen. Y ceiliog yn canu. Cael £100.
 Y trydydd mab yn cael ysgol. Mynd i wlad heb ysgolion. Gwraig yn sâl.
 Defnydd i'r ysgol. Cael £100.
 L.T.E. wedi clywed y stori gan ei ewyrth, Lewis Evans.

57. Tâp 1738

1. Dull Twm o'r Nant o gael cinio Sul yn nhŷ'r Person yn Nantglyn. Y Person yn hela'r wiwer ar y Sul.
2. Bachgen yn sôn am ddarganfod aur i gael cinio Sul.
3. Lleuad newydd yn bachu het dyn ar ben tas (Tai'n-y-foel.) Stori gelwydd golau.
4. Eisteddfod Gaergerrig, c. 1892.
5. Beirniadaeth Taliesin Hiraethog ar gywydd 'Y Gwynt', John Thomas.
6. John Thomas yn dweud wrth Wil Jones, 'Dim ond un afr i'r gaseg heno, Wil Jôs.'
7. Huw Evans yn gweld Twm, Pant y Maen, wedi rhoi llo yn lle ceffyl yn y drol i gario mawn.
8. Bob Elor Garreg Isa. Dywediadau da.
9. Dwalad Williams, Craigerchen Fawr, yn gwerthu menyn twb yn Ninbych. Taid L.T.E.: 'Ydych chi wedi gwerthu, Dwalad?' Dwalad Williams: 'Mi fydda i wedi'i fwyta mhen chydig!'
10. 'Menyn Mawr' mewn cryciau. Ei werthu yn Ninbych, Glangaeaf. 11 ceiniog y pwys. Cymharer 'menyn pwysi!'
11. Elias Nebo - casglu menyn pwysi. Ei werthu yn Llanrwst.
12. Thomas Owen, Aelwyd Brys. Prynu menyn a chaws.

58. Tâp 1739

1. Thomas Owen (parhad). Casglu 'menyn bach'. Gwerthu yn Ninbych.
2. Gwerthu gwlân. Evan Roberts, Llansannan. Prynu yn Hafod Elwy. 6-7 geiniog y pwys. (1892-3). Cludo peth gwlân i ffatri Glasfryn.

3. 'Ffeirio cyrch hadyd'. 'Prynu cyrch hadyd'. Er enghraifft, Tai'n-y-foel: 5⁷⁹¹ swllt yr hob.
4. Ffeirio tatws.
5. 'Cau clawdd twyrch'. Crefft.
6. Cuddio yn simddai Llechwedd Llyfn adeg rhyfel rhwng y Senedd a'r Frenhiniaeth.
7. Efail Pentrellyncymer. Harri'r Go oedd yr olaf i weithio yno. Pobl yn mynd wedyn i Gerrigydrudion. Cylch Hafod Elwy Ucha i Bentrefoelas.
8. Dr. Pan Jones yn areithio: 'Tir i'r Bobol'.
9. Sam Evans, Fforest, Llansannan. Brawd i fam L.T.E. Porthmona. Da am nodau clustiau defaid.
10. Dafydd Jones, Hafod Llan Bach. Gweld tas a gwaget ger Cors Carreg Benwen. (Ysbryd.)
11. Ffair Gynhaeaf Gwair, Pentrefoelas - dechrau Gorffennaf. Cyflogi at y cynhaeaf.

59. Tâp 1845

1. Hir wanwyn wedi'r Pasg
Sy'n dymor cas gan gowmon.
2. John Roberts, Garn, Pentrefoelas, yn canu a chwarae cardiau yn Nhŷ Capel Pentrellyncymer. Gwisg ddwyreiniol ganddo.
3. Hanes doniol am Huw Jones, Pentre, a Wil Powdwr.
4. Stori Werin. Creyr glas, cath a mieren yn gwerthu eu fferm. Defnyddio'r arian mewn gwahanol ddull. Y stori yn egluro paham fod y creyr yn syllu i'r dŵr o hyd, y gath o hyd yn gwylio llygod, a'r fieren o hyd yn bachu mewn dillad. (Gw. hefyd tâp 4052.)
5. Cyfeiriad at ewyrth dall L.T.E. (Lewis Evans) yn adrodd stori o'r nofel *Y Meudwy Cymreig*. Ffynhonnell storïau.
6. Dr. John Davies, Cerrigydrudion, yn rhoi gwobr am nofel seiliedig ar gerdd 'Y Sesiwn yng Nghymru' gan Jac Glan Gors. Taliesin Hiraethog yn ennill.
7. Nofel arall gan Daliesin Hiraethog: *Y Twyllwr*.
8. Hanes Dr. John Davies.
9. Dull o wella'r ddannodd.
10. 'Pedwar dirgel nis gwelir'.

11. Arwyddion tywydd:
 - a. Coch i fyny, teg yfory.
 - b. Hem wen Cricieth, glaw ..
 - c. Y gyflfinir yn arwyddo gwlaw.
 - ch. Llyffaint yn cadw swm: gwlaw.

60. Tâp 1846

1. `Cwyd, mae'n amser codi -
Wedi saith pan godais i.'
Ann Jones, gwraig Llew Hiraethog, yn galw ar y gwas.
2. Isgaer Wen. Natur y caredigrwydd. `Dowch yma eto'. `Y diawlled yn dod yma i hel eu bolie!'
3. `Teulu'r Goron'. Ffals. Cael coron i ddechrau byw.
4. Isgaer Wen - man cyfarfod i ganu.
5. Robert Thomas, teiliwr. Hanes chwipio'r gath (cyfeiriadol). Cael llond bowlen frech o siot yn Isgaer Wen. Chwyddo yn ei fol.
6. Ieuan Alwen yn ysgrifennu rhigwm yn llyfr cownt Robert Thomas:
Rhubet Thomas Acar Las,
Yr unig was sy'n addas,
Pa bryd y doi di yma'n glwt
I wneuthur crwt o drowsas?
`Mi ddof yna'n ddigon siwr
Ar doriad gwawr y bore,
Ac mi anturiaf dros y dŵr
Er mwyn cael gwneud eich llodre.'
7. Robert Thomas yn cael arian gan y Tylwyth Teg - 2/6 ar y tro.
8. Huw Jones, Pentre, yn cael 2/6 gan y Tylwyth Teg.
9. Cyfeiriad pellach at `chwipio'r gath'.
10. Cylch Robert Thomas fel teiliwr.
11. L.T.E. yn mynd i Hafod Llan Ucha i warchod i Llew Hiraethog a'i wraig. Cael cyflog `bychan iawn'. [Rhyw gyflog gorwedd yn y gwair' - nid yw hyn ar y tâp.]

61. Tâp 1886

1. `Jones Bere Fi' - Dafydd Jones, Hafod Llan Bach: cymeriad. Bu farw tua 1912. Ei ddynwared. Teulu Hafod Llan Bach: llw mawr o bobol yn byw yno. Er enghraifft, Lowri, dwy ferch iddi; Meirion Goch (mab Jane, merch Lowri); John, brawd Jane. Gwraig Dafydd Jones wedi ei adael. Hanes Dafydd Jones yn chwilio am wraig arall. Brawd i Dafydd Jones, `Wil Run'. Brawd arall: Marc Jones.

2. Coelion. Pedol ar ddrws ar ffurf 'U'. Dal y lwc.
3. Rhywbeth ar lawr â thwll ynddo - lwcus: 'carreg a thwll'.
4. Dwy frân ddu: lwcus. Un: anlwc.
5. Drych yn torri: anlwc.
6. Rhywun dieithr i'r tŷ os:
 - a. rhywbeth ar ffon y grât
 - b. y gath yn molchi
 - c. gwelltyn ar lawr
 - ch. ceiliog yn y tŷ.
7. Rhif 13: anlwcus. Rhif 7: lwcus.
8. Pôs: prynu wyn mewn ffair.
9. Dydd Iau: anlwcus i briodi. Dydd Llun: lwcus.
10. Trwyn yn cosi: rhywun yn sôn amdanoch.
11. Cosi ar y llygad dde,
Llawenydd o bob lle ...
12. Lleuad newydd ar wastad ei chefn. 'Fedar hi nofio?'

62. Tâp 1887

1. Ysgol newydd Llanfihangel Glyn Myfyr. Cân Dafydd Jones, Tai Ucha. Un pennill ar y tâp.
2. Coelion ynglyn â'r lleuad.
 - a. Lleuad newydd. 'Fedar hi nofio?'
 - b. Anlwcus i weld lleuad newydd am y tro cyntaf drwy'r ffenestr.
 - c. Rhaid torri ewinedd pan fo'r lleuad ar ei chynnydd.
 - ch. Arwyddion lleuad - peri i'r corff ysgwyd. Pan fo'n digwydd yn y dirgel, adeg hynny y dylid torri ar yr ŵyn.
 - d. Geni pan fo llanw; marw pan fo trai.
3. Dim i dorri ewinedd plentyn bach ond gyda dannedd, neu bydd yn lleidr. Anlwcus i siglo crud gwag.
4. Tynnu'r bysedd. Am bob clec cael plentyn siawns.
5. Dwy lwy mewn cwpan: arwydd o briodas. Dim digon o de yn y tebot: arwydd o anffyddlondeb.
6. Arwyddion y lleuad: 'Cofiwch hyn bob un tra boch ...' (4 llinell).
7. Cannwyll gorff (cyfeiriadol).

8. Cred: os un gladdedigaeth dros Bont yr Alwen, dwy yn ei dilyn.
9. Pobl Hafod Elwy (er enghraifft, John y Bwt) yn gweld `tân' yn y corsydd.
10. Cŵn yn udo ar noson ole,
Newydd drwg ddaw yn y bore.
11. Iar yn canu fel ceiliog: arwydd drwg. Englyn Elfyn i'r ceiliog. Anlwcus os canu cyn 12 o'r gloch. Ceiliog yn canu: tywydd braf.

63. Tâp 1888

1. Gwenyn. Anlwcus i weld haid o wenyn. Arwydd o farwolaeth.
2. Gwella brathaid ci cynddeiriog. Torri tair llythyren, eu gosod rhwng brechdan a'u bwyta. (Tystiolaeth gan Robert Parry, Moelfre Fawr, Cerrigydrudion.)
3. Robert Parry. Dyn cryf. Dwbl asen ganddo.
4. Pry clustiog - ofn iddo fynd i'r glust.
5. Anlwcus i dorri gwe pry copyn.
6. Cricedyn yn byw mewn tân. Lwcus.
7. `Llyffantod yn gweddio am wlaw.' Llyffant du dafadennog yn newid dannedd.
8. Defaid yn chwarae: tywydd braf.
Cathod yn chwarae: tywydd drwg.
9. Cydio mewn corn malwen ddu a'i lluchio dros eich pen. Rhigwm (cyfeiriad byr).
10. Tylluan yn canu; barugo.
11. Robin Goch at y ty: eira.
12. Pam fod bron y Robin yn goch? L.T.E. yn canu pennill o `Cantata'r Adar'.
`Fe'i rhowd mewn tân poeth ...'
13. Mae yma wydd a chlagwydd
Yn pori'r dorchon las;
Yr wydd yn canu tenor
A'r clagwydd yn canu bas!

Ann Jones, Hendre Ddu.

L.T.E. yn canu'r pennill.

64. Tâp 1889

1. 'Os cana'r gog ar frigyn llwm ...' (rhigwm.)
2. Paun: gwneud sŵn o flaen gwlaw.
3. Gwylan: arwydd gwlaw.
4. Alarch yn canu cyn marw.
5. a. Englyn Pedrog i'r Dryw.
b. Rhigwm:
Y neb a dynno nyth y dryw
Ni wêl rwydd-deb yn ei fyw.
6. a. Y gylfinir yn canu cyn gwlaw.
b. Pan glywir y gog am y tro cyntaf, mae'r flwyddyn wedi torri asgwrn ei chefn.
7. Llygad y dydd ar fedd mam: lwc i'r mab.
8. Meillion pedair deilen: lwcus.
9. Os deilia'r dderwen o flaen yr ynn,
Gwerth dy ychen ac na phryn.
10. Mantell Mair mewn cae gwair: tir mewn calon dda. Mair wedi mynd ymaith a gadael ei mantell ar ôl.
11. Dail Cas gan Gythrel: tebyg i ddant y llew. Tyfu wrth odre croes Crist.
12. 'Hen fabi Dail Tafol': rhywun meddal.
13. 'Glywsoch chi am Mari Mincieg ...' (un pennill) - geiriau gwreiddiol y pennill a genid gan bob Tai'r Felin.
14. Pan welir dail y milfyw,
Bydd byw yr eidion du.
15. Yr ywen. Pren bwa saeth.

65. Tâp 1890

1. Dwalad Llwyd, Rhiw Goch, Llanfihangel. Hanes y ferlen. Corn yn ei glust.
2. Englyn gan Gadwaladr Llwyd i Bont Llanfihangel.
'Hanner 'O' yn yr awyr ...'
3. Y tri englyn gorau i bont.
4. Dafydd Roberts, Rhos-fraith. L.T.E. a Dafydd Roberts yn hela sgwarnog.

5. Dafydd Jones, Tŷ Gwyn. Tynnu ceilliau gyda'i ddannedd.
6. 'Wil y Torrwr'; Wil Harri - 'Harri Bach Trwyn Hir'. Mab i Wil Harri : 'Jones y Torrwr'. Y ddau yn gweithio gyda'i gilydd. Cylch Cerrig, Hafod Elwy, etc.

66. Tâp 1891

1. Torri ar ŵyn (parhad.)
2. John Hughes, Capel Garmon, yn dod i Hafod Elwy.
3. Cotio moch manw. Tynnu perfeddyn.
4. Gwraig 'Wil y Torrwr'.
5. Arferion a choelion geni.
 - a. Llawer o griafol, llawer o blant.
 - b. Bydwraig: Catrin Jones, Cefn Brith. Tâl: swllt y dydd.
 - c. Marged Tomos, Graig Hir. Bydwraig. Tâl: swllt y dydd.
 - ch. Bedyddio plant. (Manwl.)
 - d. (Sylw heb fod ar y tâp: 'plentyn henaidd ddim yn byw yn hir'.)

67. Tâp 1941

1. Mawn cowper. Llogi'n goch. Mawn cochion: 18" x 4" x 6". (Cymharer 18" x 4" x 4" yn gyffredin.) Ychydig mwy nag arfer. Hen fawn drwg - angen tywydd sych i'w codi. Dal i losgi'n hir. Defnyddid gan y cowper i wneud cylchau. Mawnog Cors-y-llyn, Hafod Llan Isa.
2. Cowper ym Mryn Hir, Pentrellyncymer.
3. Arferion magu plant (cyfeiriadol). Bachgen henaidd - cael corff newydd bob saith mlynedd.
4. Arferion caru. 'Cardiau Falentein'. Morwyn yn Nhy'n Gilfach yn derbyn cerdyn Gwyl Sant Falentein. 'Falendein' - dywediad cyffredin. Geiriau ar gerdyn a dderbyniodd tad L.T.E.:
 Rwy'n anfon atat hyn o lein
 I ddwyn ar gof Wyl Falentein.
5. Anfon collen mewn llythyr i'r cariad a gafodd ei wrthod ('coll-en'). Tua 'winwedd' neu ddwy, dau neu dri trwch gewin.

68. Tâp 1942

1. Arferion caru. Anfon collen. Anrhegion. Cyfarfod. Cnocio neu guro. Dim caru yn y gwely.
2. Robert Roberts, Foty Wen, gweld pwy oedd yn caru'r forwyn.
3. Mab fferm yn priodi morwyn.

4. Penillion i'r enwadau crefyddol:
 - a. `Methodistiaid creulon cas
Mynd i'r capel heb ddim gras ...'
 - b. `Babtist y dŵr yn meddwl yn siwr ...'
 - c. Englyn i'r Methodyn:
`Distaw y dwed ei destun ...'
5. Caru. `Hedodd gwydd dew rioed dros afon.'
6. Os ei di i garu, dos yn gynnar,
Cyn i'r merched fwyta'u swpar,
Ti gei weled drwy y gwydyr
Prun sy'n lân a phrun sy'n fudur.
7. Isaac Jones anfon llythyr caru at rywun o Gerrigydrudion - rhoi cyfeiriad llythyr ei fam ar un ei gariad mewn camgymeriad!
8. Un noson o garu yn y cytundeb rhwng gwas a meistr.

69. Tâp 1943

1. Cytundeb rhwng y wraig a'r forwyn: dim mwy nag un noson o garu.
2. Priodi. Y fodrwy. Y wisg. Bore'r briodas. Gwahoddiad y gwahoddwr (cyn cyfnod L.T.E.). Anrhegion: tua 2/6, llinieiau bwrdd, etc. Priodi ar ddydd Sadwrn ddechrau'r gaeaf. Gwas priodas yn talu costau'r diwrnod. Y gwasanaeth. Y wledd. Y gacen.
3. Hanes hen wraig yn paratoi neithior i'w merch.
4. Priodas y Cynol Mainwaring: cystadlaethau. Er enghraifft, rhedeg ras (merched).

70. Tâp 1944

1. Priodi: y mis mêl.
2. Ffyddlondeb. Agwedd tuag at anffyddlondeb. `Byw tali'. `Ponsho'. `Caru heibio'r wraig/gŵr.' `Cyboli'.
3. Arferion marw a chladdu.
4. Canu cnul. `Maen nhw'n canu'i gnul o.'
5. Diweddu. John Davies, Llechwedd Llyfn. Begw Thomas, Cefn Brith. 1/- i 1/6 o dâl. Catrin a Lowri Hafod Llan Bach ochr Hafod Elwy. Marged Tomos, Graig Hir. Tâl cyffredin; arian, blawd ceirch neu bwys o fenyn.
6. Amdo. Llenni'r tŷ i lawr. Y saer. Yr arch. `Gwnaed arch o ddêl ...' (pennill). Teulu tlawd. Pren meddal. Shafins o dan y marw. Y plât.

7. Bara a chaws a chwrw i'r bobl. Bwyta dros yr arch.

8. Gwynnos. Gwyllo yn Hafod Llan. (Nain L.T.E.)

71. Tâp 1945

1. Gwynnos. Pennill.

'Dyma fachgen wedi marw ...'

2. Ymwelwyr. Cydymdeimlo. Rhoddion: 1/- i 2/-.

3. Y cynhebrwng neu'r gladdedigaeth. Bwyd. Cymdogion yn cynorthwyo. Gwasanaeth. Angladd yn Hafod Llan (Nain L.T.E.)

4. Cred: y cyhoedd â hawl i deithio ar hyd ffordd yr aeth angladd ar ei hyd.

5. Y ceffyl yn gwehyru yn yr hers yn arwydd drwg.

6. Os un angladd dros Bont Alwen, dwy yn siwr o ddilyn.

7. a. Claddu'r meirw â'u traed i gyfeiriad codiad haul.

b. Claddu crogwyr, hunanleiddiaid, lladron pen-ffordd ar groesffordd.

c. Claddu newydd anedig gyda'r nos. Gwasanaeth.

72. Tâp 1946

1. Arferion marw a chladdu.

Offrwm. Mynd heibio'r allor a rhoi arian mewn bocs - ceiniog (offrwm i'r Person).

2. Y clochydd yn derbyn ei arian ef wrth lidiart y fynwent: 2 geiniog.

3. Englyn Robert William, Y Pandy, Llanuwchllyn (awdur 'Beibl i bawb o bobl y byd') i Dafydd Jones, mab Tŷ Capel, Pentrellyncymer:

'Wele orwedde i'r ieuanc ...'

4. Mwrnio. Coffad. Y fynwent. Chwaraeon.

5. Hen bennill:

'Maent yn dwedyd yn Sir Fôn

Fy mod yn ragmon meddw ...'

Clywodd gan ei dad.

6. Robert Jones, Traean. Disgrifiad.

7. Thomas Jones, Cerrigelltgwm, fel bardd.

8. Thomas Jones, Tom Owen a L.T.E. yn trafod barddoniaeth.

9. Englyn Thomas Jones i William Morgan, Ysbyty Ifan.

73. Tâp 1947

1. John Ellis, Utica, Trawsfynydd, ac Ellis Jones, Ty'n Mynydd, Cerrigydrudion (gweinidog ym Methel, Pentrefoelas). Dau frawd.
2. John Ellis yn darlithio ac yn canu hen gerddi crefyddol. Er enghraifft, sôn am y saint:
 `Yno'n canu am yr ucha
 I'r gŵr fu'n dioddef ar y Pren ...'
3. Ellis Jones: bardd. Cyfansoddi cerddi coffa. Areithio un tro ar wleidyddiaeth yng Ngherrigydrudion (Rhyddfrydwr). Araith dda am y Datgysylltiad.
4. `Y Gorlan Ganpunt' - hanner ffordd rhwng Bryntrillyn a Hafod yr Onthren. Cynefinoedd defaid yn cyfarfod yno. Costio £100 i'w hadeiladu, tua 1880. Ffermwyr yn cydweithio.
5. `Dydd Mawrth Ynyd,
 Cremnogau bob munud.'
6. Dydd Mercher Lludw.
7. Y Pasg. Bwyta `hot-cross-buns' ar Ddydd Gwener y Groglith.
8. Stori Glangaeaf. Dau mewn tafarn. Mynd i nôl penglog o'r fynwent. Braw.
9. Stori werin. `Injan Malu Halen'. Brenin wedi ei dyfeisio. Esbonio pam fod halen yn y môr. Clywed y stori gan John Griffiths, Penffordd Ddu, Llanelidan. (Gw. hefyd tâp 4050.)

74. Tâp 2005

1. Stori werin. Dyn i gael tri math o faw anifeiliaid yn y cae: baw ceffylau, gwartheg a defaid. `Beth yw uchder Mynydd Ararat?' Dim ateb. `Gwybod mwy am faw anifeiliaid' nac am ddaearyddiaeth.
2. Stori werin. `Plas Cyfaill Mr. Webster.' Mr. Webster yn gadael ei blas. Dyn diarth i'r drws ac yn gofyn am gael gadael arch yn y tŷ. Cariad y forwyn yn agor yr arch - dyn y tu mewn iddi a wislen. Chwibanu. Dau ddyn arall at y tŷ. Eu saethu. (stori Lewis Evans ei ewyrth dall.) (Gw. hefyd tâp 4051.)
3. Brenin yn cynnig ei ferch i'r sawl a fedrai adrodd stori yn para am byth. Os methu, torri pen y storiwr. Bachgen tlawd yn ymgeisio. Aderyn yn dod i mewn i ysgubor yn llawn gwenith. Mynd ag un wenithen allan drwy ddrws yn y to. Aderyn arall yn mynd ag un. Felly am hydoedd. Y Brenin yn blino a'r bachgen tlawd yn ennill y ferch. (John Griffiths, Penffordd Ddu, Llanelidan). (Gw. hefyd tâp 4051.)

4. Stori werin. Y Bachgen a'r Fodrwy Ddymuno. Ei chael gan ddewin. Siopwr yn ei dwyn. Dymuno am aur. Cael ei gladdu dan yr aur. Y fodrwy ffug gan y bachgen. Y llanc yn dod yn gyfoethog (stori Lewis Evans, ewythr dall). (Gw. hefyd tâp 4051.)
5. Dyn yn cael gwn i saethu heibio cornel! (John Griffiths).
6. Jac y Lantern a'r Diafol yn bartneriaid. Jac yn cael gwenith a thatws. Y Diafol yn cael gwreiddiau a gwlydd. (Stori Jac y Bwt.)
7. Jac y Lantern yn gosod cetyn (gwn) yng ngheg y Diafol. Ei danio. Y Diafol yn poeri. (Jac y Bwt.) (Cymharer fersiwn tâp 871.)
8. Stori werin. Clustiau mul gan y Brenin Melwas. Torri pennau ei eillwyr. Eu claddu mewn cors. Llanc yn gwneud `spianog' o'r corsenni. Cân ohoni: `Mae clustiau mul gan Melwas. (Clywodd gan Dafydd Jones, Tai Ucha.) (Gw. hefyd tâp 4052.)
9. Min nos ar yr aelwyd yn Hafod Llan Isa. L.T.E. ar ei draed tan yn hwyr iawn.

75. Tâp 2006

1. John Celwydd Golau (John Roberts). Byw ym Mhenrhyndeudraeth. Gweithio yn Ffestiniog. Wedi bod yn Awstralia.
 - a. Mynd am dro yn Awstralia. Derwen yn llawn o frain. Saethu. Y goeden yn codi o'r gwraidd.
 - b. John yn Awstralia. Ar ben coeden. Disgyn i nyth dau gyw arth. Yr arth yn dod. Cydio yn ei chynffon ac i fyny i ben y goeden.
2. Huw Parri Owen, Maestyddyn, Llanfihangel Glyn Myfyr. Cath yn lladd cywion. Ei wraig eisiau ei boddi. Ei rhoi mewn hocsaid yn llawn o ddwr. Y bore wedyn y gath yn ei gwaelod - wedi yfed y dwr i gyd.
3. Wiliam Roberts, Trawsant. Colli myharen. Cael hyd iddo yng nghanol swedden.
4. Huw Parri Owen a William Owen yn yr Efail, Llanfihangel Glyn Myfyr. Ymryson dweud celwydd. Huw Parri Owen: ceiliog â choes bren ganddo. Tri ar ddeg o gywion â choes bren gan bob un. William Owen: ei wraig yn rhoi wŷ tseina dan iâr a chael llestri te!
5. Huw Parri Owen yn plannu parion tatws i gau adwy rhwng yr yd a'r borfa.
6. Wedi prynu llo yn ffair Cerrigydrudion. Gwres mawr. Y llo yn gorfedd yn y ffos ger y Crown, Llanfihangel. Huw Parri Owen yn gorfedd gydag o a'r Parchg J.R. Jones yn dod heibio.
7. Cyfarfod adloniadol Ty'n Rhyd, Cerrigydrudion. Dau am y gorau i ddweud stori gelwydd golau. Un yn gyrru hoelen i'r lleud. Llall yr ochr arall yn ei chlensio!

8. Gweld drychiolaeth. Hugh Evans (tad L.T.E.) a Robert Davies, Glan-y-gors yn mynd i Benmachno i nôl slaets. Gwedd. Toll cyn cyrraedd. Aros. Gweld dyn yn pasio'r ffenestr. Ond neb yno. Dod eto. Y dyn hwnnw wedi marw.

76. Tâp 2007

1. Stori werin. Dyn gwyn wedi priodi dynes ddu.
2. Stori werin. Dyn yn mynd â mochyn at gigydd i'w ladd, ond yn ei gadw yn y penty. (Clywed gan Robert Lewis, Hafod Llan.)
3. Drychiolaeth. Torrwr beddau yn gweld arch plentyn. Dod â channwyll gydag o. Towlyd.
4. Tri dyn mewn tafarn. Tri pheint. Taeru pwy oedd i dalu. Tri pheint eto - ddwywaith. Rhoi mwgwd am ben y tafarnwr. Ef i ddal un ohonynt - hwnnw i dalu. Y tri yn dianc allan. Ymlaen i Fanceinion. Tafarn arall ac yfed eto. Un dyn yn mynd â'r tafarnwr i 'siop ei gefnder' i newid siec £5. Y dyn yn gofyn i'w 'gefnder' (sef y fferyllydd) i wella'r pocs ar y tafarnwr. Y tafarnwr a'r fferyllydd yn ymladd. Y dyn yn dianc heb dalu! (Stori Lewis Evans, ei ewyrth dall.) (Gw. hefyd tâp 4052.)
5. Min nos ar yr aelwyd yn Hafod Llan Isa.
6. Ysgol ym Mhentrellyncymer tua 1914.
7. Stori. Cybydd o flaen llidiart y nefoedd. Sgwrs gyda Phedr. 'Rhowch hanner yn ôl iddynt.'

77. Tâp 2008

1. Hen Jo Hocar. Hocio yn ffeiriau Cerrigydrudion, Pentrefoelas, etc.
2. Stori. Clochudd wedi dwyn perlau o fedd. Dyn wedi dwyn mochyn. Gwas y Person yn gweld golau ac yn cario'r Person ar ei gefn. Clochudd: 'Dydio'n dew' (am y mochyn). Y gwas yn cael braw ac yn lluchio'r Person i'r bedd! (Stori Robert Lewis, Hafod Llan.) (Gw. hefyd tâp 4051.)
3. Stori. Bachgen yn siopa. Cymysgu neges. 'Nytmeg a ginger ...'
4. Stori'r ddau Wyddel yn y carchar. Un wedi dwyn oriawr. Y llall wedi dwyn buwch. 'Be 'di'r gloch?' holodd un. 'Amser godro', meddai'r llall.
5. Stori. Gwyddel yn dewis cael ei grogi ar goeden gwsberis.
6. Stori. Morwyn yn gwneud leicecs. Meistres adre. Parot: 'Tan dy dîn di Neli.'
7. Stori. Parot y fistres: 'O mi leiciwn i tase'r hen fistres yn marw.' Parot y Person: 'Arglwydd, gwranddo ngweddi.' (Stori ap Glaslyn.)
8. Dynwared pregethwr Bedyddwyr. Moses yn croesi'r Môr Coch.

9. 'Tomos Dal Diafol'. (Pregethu gyda'r Methodistiaid Calфинаidd.)
10. Pregethwr yn dweud ar ei bregeth: 'Cyn sicred â mod i'n dal y gwybedyn yma.' Methu!
11. Cred: os llaw farw mewn tŷ, neb yn deffro. Hanes un yn rhoi ei law ei hun yn y gynfas. (Clywed gan Robert Lewis.)
12. Stori. Hen ŵr a hen wraig a'r angau. Hen wraig: 'Os daw angau, mi a i.' Hogia yn dal clagwydd. A meddai'r hen wraig: 'Yn siambr mae o.' (Stori Robert Huws.)
13. Stori. Pen dafad a phlwm pwdin yn berwi. 'Mae'r pen yn siwr o dolcio'r plwm pwdin!' (Stori Hugh Evans.)
14. Gwas bwtsiwr yn mynd i'r Eglwys. Person yn pregethu ar Ddafydd a Goliath. Person: 'Be mae o'n ei ddweud?' Gwas: 'Dweud mae o na chewch chi ddim chwaneg o gig nes talu am yr hyn 'dych chi wedi'i gael.' (Stori Hugh Evans.)

78. Tâp 2287

1. 'Stori Lewis Owen'. Dyn dieithr (Lewis Owen) ar gefn ceffyl Mr. Sturdy - casglwr arian o Lanrwst. William Thomas, a oedd yn cadw'r giât yng Nghapel Curig, yn mynd ar ôl Lewis Owen. Dienyddiwyd Lewis Owen, 4 Medi, 1822. Baled.
 'Fe ddwedodd Lewis Owen
 Cyn mynd yn grog ar bren ...'
 (Clywed gan Hugh Evans.)
2. 'Stori'r March Du'. Noson cyn y Nadolig - hen ŵr yn dweud wrth Siôn Ifan y byddai'r March Du yn ymddangos. Digwyddodd felly (bambocs gwag i ddal het). Cerdd.
 'Pob ysbryd mi gredaf rôl dilyn eu hynt ...' (O'r *Seren*).
3. Stori 'Trysor Tyddyn Cwtyn y Ci', Ysbyty Ifan. Dyn yn breuddwydio y câi drysor os âi i Bont Llundain. Mynd yno. Cyfarfod â Chymro, a hwnnw'n sôn wrtho am ei freuddwyd yntau - trysor mewn crochan aur yng ngardd Tyddyn Cwtyn y Ci. Mynd adre. Darganfod y trysor. (Gw. hefyd tâp 4051.)
4. Drychiolaeth. Sam Evans (14 oed), ewyrth L.T.E., yn tynnu grug ar y Sul. Gweld dyn ar y ffridd ger y tŷ. Diflannu. (Clywed gan Sam Evans.)
5. 'Stori'r Ffidil'. Bachgen eisiau bwyd. Ffidil ganddo. Gofyn i siopwr am swllt yn gyfnewid am y ffidil - dod i'w nôl ymhen peth amser. Gŵr bonheddig yn y siop. Cynnig £60 am y ffidil. Siopwr yn gwrthod. Y bachgen yn ôl. Gwerthu'r ffidil i'r siopwr am £30, ond ni ddaeth y gŵr bonheddig yn ôl. (Clywed gan Evan Jones, Penrhyn, Pentrefoelas, yn chwarel Graig Ddu, Ffestiniog.) (Gw. hefyd tâp 4051.)

6. Gwlad y Tylwyth Teg. Dau gefnder. Un yn diflannu yn y nos. Ymhen pymtheg mlynedd dyn yn pasio un o'r ddau gefnder. 'Aros di, nid Jac fy nghefnder wyt ti?' 'Ia, fues i'n hir, dwed)' (Clywed gan ei ewyrth, Lewis Evans, Hafod Llan Isa.)

79. Tâp 2288

1. Dau yn mynd am dro. Gweld Tylwyth Teg. Rhai yn gryddion, rhai yn deilwriaid. Mynd at ddewin. Eu gweld eto os mynd ymhen diwrnod a blwyddyn. Un ohonynt yn gloff oherwydd fod byniawyd y Tylwyth Teg yn ei ben ôl.
2. Robert y Teiliwr, Cefn Brith. Mynd i Gerrigydrudion. Talu 2/6 am drwsio cloc. Cael hyd i ddarnau hanner coron ym mhob man.
3. Dyn yn cysgu mewn tŷ tafarn. Y llofft ar dân - gweld dynes yng nghanol y tân. Gofyn iddo achub ei phlentyn.
4. Dr. John Davies (taid Dr. Ifor H. Davies) yn clywed llais ar noson o eira. Dweud wrtho am fynd i Graigerchen. Mynd yno, a'r wraig yn 'cael ei gwely'. Byddai hi a'i phlentyn wedi marw oni bai am y meddyg.
5. Y Porthmon a'r Ci Mawr Du. Porthmon yn dod adref o ffair Corwen - dod i gyfeiriad Llangwm. Dyn yn dweud wrtho 'Mi ddof o hyd i chi mhen munud.' Ci mawr du yn dilyn y porthmon. Y porthmon yn annos ei gi ei hun arno. Dal i'w ddilyn. Cyrraedd Ty Nant Llwyn. Cred: ci mawr du yn ceisio denu pobl i le unig - arwain y lladron ar eu holau. (Clywed gan Hugh Evans.) (Gw. hefyd tâp 4050.)
6. Dyn yn dod adre o Gorwen. Dau yn ei gyfarfod wrth y Glyn. (Gw. hefyd tâp 4050.)
7. Dynes eisiau symud ei harian o fanc Rhuthun i Gorwen. Dweud wrth fwtsiar. Hefyd wrth blisman. Y plisman yn clywed gwaedd. Mynd yno. Pen y ddynes wedi'i dorri. Mynd at y bwtsiar - gweld y pen a'r pres.
8. Stori'r hen wraig a'i mab yn llongwr. 'Be welest ti?' 'Gweld pysgod yn hedeg.' 'Paid ti â mynd o adre i ddweud celwydd.' 'Mi weles olwynion Pharo wrth y Môr Coch.' 'Wel, dyna rywbeth.' (Clywed gan ei ewyrth, Lewis Evans.)
9. Dimai am ddal naw o lygod bach.
10. Cryddion Llannerch-y-medd. 'Chwarae teg i'r dyn diarth'- yna rhoi byniawyd yn ei ben ôl o. Pennill am hyn.

1. Cryddion Llannerch-y-medd (parhad).
2. Pob dyn diarth fyddai'n mynd o Bwllheli i Aberdaron yn cael ei ffonio. Cenfigen. (Clywed gan y Parchg Stanley Jones, Caernarfon.)
3. Pregethwr yn darllen y Beibl i ddyn anllythrennog. Hanes Daniel yn ffau'r llewod a Jona a'r morfil.
4. Modryb Margied (Jones) yn disgwyl ei gŵr adre o Gerrigydrudion. Dau o'r gloch y bore - gweld dyn â barf wen a het sgwâr a ffon ganddo yn mynd heibio'r ffenest - er nad oedd llwybr yno.
5. John Richards, Cefn Brith, yn mynd yn gynnar yn y bore i nôl calch. Dynes i'w gyfarfod yn y Glyn yn cario basged fechan. John Richards yn 'chwitho' (cynhyrfu).
6. William Evans, 'Wil yr Ieir', tad mam L.T.E.. Cario pac o datws. Lab yn ei sowdl. Ofn. Ysbryd! (Taten yn disgyn! Twll yn y bag!)
7. William Evans yn paffio gyda thaid Thomas Jones, Tai Isa.
8. Crown, Cefn Brith: canolfan i'r lads ar fin nos.
9. John Llwyd, Crown, yn naddu corn Huw Tomos.

81. Tâp 2290

1. Dyn yn ymosod ar Ap Fychan rhwng Wrecsam a Rhos. Ap Fychan yn rhoi ergyd iddo gyda'i bastwn.
2. Llyn Y Bala wedi rhewi. Llanc yn cerdded ar hyd y 'ddôl'. Pan wybu, bu farw.
3. Huw Williams, Brynllaethog, Glasfryn yn cael ei droi o'i dŷ gan y tiffeddiannwr. Huw Williams yn disgyn i bwll wrth gysgu.
4. Gwyddel yn dwyn ceiliog hwyaden. 'I walk', meddai'r ceiliog. 'Na', meddai'r Gwyddel, 'mi wnâ i dy gario di!'
5. William Lloyd yn canlyn y wedd yn Aelwyd Brys. Caledi. Gweithio'n galed. Cario tatws ar eira mawr. Prynu caws a menyn hyd y wlad.
6. Plas Iolyn wedi lladd bustach. Gwaed i'r lads am wythnosau. Jac Tomos wedi hen flino. Chwarae tric - colli'r gwaed ar lawr.
7. Jac Tomos - castiog. Carthu'r sodre yng Nghlust-y-blaidd - twyllo'r meistr.
8. Jac Tomos yn gosod trwyn Thomas Jones, Pant-y-griafolen, Glasfryn, mewn nyth wyau.

9. Thomas Jones, Pant-y-griafolen, yn chwalu gwely'r lads. Nhw yn gosod pwped yn y gwely.
10. Thomas Jones a Hugh Evans (tad L.T.E.) yn ffraeo.
11. Thomas Jones wedi meddwi.
12. Thomas Jones yn cnocio. 'Mae gen i fuches fel buches Pharo, ond pwy gaf i i'w godro nhw ydi'r cwestiwn?'

82. Tâp 2291

1. Thomas Jones, Pant-y-griafolen, gyda Dafydd Llwyd - ef wedi drysu. Torri brwyn.
2. Ysbryd Graigerchen: buwch â chlwt gwyn arni.
3. Lads Graigerchen Bach yn cael gwledd yn y tŷ newydd.
4. Cadwaladr a Jane Williams, yn arthio ar ei gilydd.
5. Rheilffordd arfaethedig o Ruthun i Gerrigydrudion. Cerdd gan Huw Jones.
6. John Jones a'i het: dyn arall wedi gwario ei bres i gyd. John Jones yn rhoi tro i'r het, ac yna yn ei gwerthu am £100.
7. Y Bachgen a'r Blotyn Du - man geni arno. Gadael y cartref tlawd. Dychwelyd fel gŵr bonheddig. Ei rieni yn ei ladd - gweld y blotyn du. (Clywed gan Dafydd Jones.) (Cymharer y faled.)
8. Marged Wyn, Rhos Ddu. Ddim yn ben llathen. Dywediad: 'just â lwgu'.
9. Eira mawr - eira du. Lowri a Dafydd Jones, Tai Canol, un iar. Ei lladd a'i bwyta gyda'r eira.
10. William Pyrs, Foty Siôn Llwyd. Ci o'r enw Coron. 'Well gen i golli chweugain na cholli Coron.'
11. 'Tomos Dal Diafol': pregethwr. Cau'r Beibl i ddal gwybedyn. Methu!
12. 'Hen Ych-a-Batw': Llysenw hen bregethwr ffraeth. Pregethu ar Pharo.

83. Tâp 2292

1. Robin Din Denc o Ddolwyddelan. Cymeriad. Pregethwr yn sôn am 'dorth fel Moel Fama'. Robin: 'Licio gweld y popty a'i crasodd.'
2. 'Dau olwg da sydd ar deiliwr ...' Rhigwm Robin Din Denc.
3. Pregeth Saesneg: Jona a'r morfil.
4. Anffyddiwr a Christian yn ffraeo. Jona a'r morfil.

5. Stori: dysgu ci i siarad.
6. Stori: bwyta ceffyl - cyfrwy dan y gwely.
7. Enwau Lleoedd.
 - a. Cylchau Gallt yr Hwch (Hafod Elwy). Llyn Dau Ychen (llyn y ddau darddiad). Graigerchen. Corlan y Dolydd. Pen Bryn Slaets - chwilio am slaets yno. Ffordd Alis ach Huw. Gorsedd Brân. Rhyd y Cerrig Geirw. Afon Bechan (o Bant-y-maen).
 - b. Maen Cleddau. Darn o'r garreg wedi'i thorri â chleddyf cawr. Hen Ddinbych. Hen wersyllfa Rufeinig. Creigiau Diffwys. Llech Ddaniel. Foty Siôn Llwyd (Foty Simon Llwyd). Nant y Berbo.
 - c. Cerrig Terfyn. Y ddefod. Seremoni cerdded terfynau.
 - ch. Elor Garreg. Stôl Tas Fawn, ger Rhos Ddu. Marial Gwyn - oducha Esgair Wen. Caban Cipar.
 - d. Nant Tai Ucha. Dafydd Jones yn cynhyrchu trydan.
 - dd. Lleuad: yr arwyddion.
 - e. Tan Rhiw. Taliesin Hiraethog. Cymorth i'w adeiladu trwy'r Clwb Bildio. Bryn Blodau.

84. Tâp 2390

1. Mathau o wair.
 - a. Gwair gwndwn, hade, gweirglodd, rhos.
 - b. Un cae hade y flwyddyn. Troi y drydedd flwyddyn - wedyn hadu.
 - c. Hau haidd gyda hade - mantais.
 - ch. Gwair hade i geffylau.
 - d. Enwau caeau gwair: Gwndwn Mawr, Gwndwn Bach, etc.
 - dd. Gwair rhos - caled, byr.
 - e. Gwair gwndwn (trydedd neu bedwaredd flwyddyn o wair hade).
 - f. Troell y Gorun: gweirynd caled, tyfu ar dro. Anodd ei dorri (gwair rhos).
 - ff. Gwair ail hade - yna gwair gwndwn.
 - g. Gwair gweirglodd - llawn llysiau. Er enghraifft:
 `Pwrs y gaseg las' - math o rosyn ar le braidd yn wlyb; `Pwrs y gaseg goch';
 `Pwrs y bugail' neu `arian meirch' - clychau bach (gwndwn);
 `Llwyn hidil' (porthiant gwael). Gwair gwndwn.
 `Mantell Fair' - mewn cae a chalon dda;
 `Cynffon y gath' - tebyg i frwyn gwlyb. Gwair salaf.
 - ng. Gwair hade yn cynnwys: (i) Oilseg (gwartheg); (ii) Timothy (defaid), pen fel cynffon llygoden - `gwair cynffon llygoden' yn gwneud y tir yn wreiddiog; (iii) meillion bach; (iv) meillion gwynion.
2. Dafydd Jones, Tŷ Gwyn - un da am drin hade.
 - a. Peced o hade - pedair ffioled.
 - b. Deubwys o glofer coch.
 - c. Dau bwys o glofer gwyn.
 - ch. Pwys/dau bwys o oilseg.

3. Mesuriadau:
 - a. 4 peced: 1 hobed
 - b. 2 hobed: 1 sach
 - c. 4 hobed: hau acar o geirch.

85. Tâp 2391

1. Offer mesur hade.
2. Cowperiaid:
 - a. Dafydd Jones, Tŷ Gwyn, yn gwerthu basgedi.
 - b. Cowper Bryn Hir, Pentrellyncymer. Gwerthu a thrwsio.
3. Paratoi tir hade - hau ceirch/haidd.
 - a. Amser hau haidd - aros nes bod y ddraenen ddu yn ddraenen wen. Y ddraenen wen yn ymddangos ar ôl Clamai.
 - b. Hau ceirch pan fyddo'r garreg yn sych. Os heb hau cyn 20 Ebrill - ei luchio i'r pwll, pa dywydd bynnag.
4. Rowlio. Mathau: Rowl bren (derw). Rowl garreg. Rowl haearn a dŵr. Rowl haearn.
5. Gwrteithio. Teilo.
 - a. Gweirglodd - adeg rhew yn y gaeaf, rhag dryllio'r tir.
 - b. Tail sodre.
 - c. Defnyddio slêd ers talwm.
 - ch. Rhigwm Edward Morris, Perthi Llwydion:
 `Gwelais ddydd y gwnai fy nain ...
 Gewyll teilo gwell na'r rhain.'
 - d. Teilad.
 - dd. Caff tail.

86. Tâp 2392

1. Teilo.
 - a. Caff tail. Gof yn gwneud y pen. Pris: 2/6.
 - b. Sgaru tail. Rhai yn ôl y twr (ceiniog).
 - c. Tir gwndwn: tail gwartheg mân - mynd i'r ddaear cyn iddi sychu.
2. Calchu. Ffisig. Agor y tir.
 - a. Tir rhos: dim calch - rhy sâl.
 - b. Nôl calch i Gorwen - 15 hobed. Pwysig ei gael yn boeth - llacio tir wedi rhwymo.
 - c. John Richard Jones yn mynd drwy'r Glyn gyda gwedd. Dynes yn dod i'w gyfarfod.
 - ch. Cael 1/- i 1/6 i fynd i'r calch. 6 cheiniog am le'r ceffylau; 2 geiniog i'r osler; 2 geiniog i'r dafarn am ddwr poeth.

1. Calchu.
 - a. Nôl calch o Gorwen. Aros yn Y Cymro. Dŵr i'r ceffylau. L.T.E. yn mynd i'r calch ei hunan. Tŷ Calchwr, Corwen. 'Wil y Calchwr'. Cael calch 3 diwrnod o'r wythnos. Pris yn ôl yr hob. Sachaid o fwyd i'r ceffylau - gwellt wedi'i dorri, blawd, ceirch.
 - b. Chwalu calch. Gadael calch yn dwr nes slacio. Chwalu calch. Rhaw sgwâr. Gwndwn neu weirglodd: rhoi calch weithiau ddwywaith y flwyddyn. Peth gorchest.
2. Ffa corsydd yn tyfu mewn lle gwlyb. Trwyth da at ddolur cefn.
3. Slingio. Pris sling: £2. Ar ôl calchu. Teilo ym mis Ebrill.

88. Tâp 2394

1. Crega. Hogiau yn cael 4 ceiniog am y dydd. L.T.E. yn crega yn Aelwyd Brŷs yn 7 i 8 oed.
2. Adeg: toc ar ôl Clamai - wedi hau. Pawb ar y fferm wrthi. Hogia yn cysgu wrth grega. Trafaeliwrs yn crega.
3. 'Robin y Gregwr' ('Bob y Maip') o Ruthun. (Trin a thocio sweds. 4 ceiniog am ugain llath.)
4. Dulliau crega. Tir hade: brasa. Tir wedi'i deilo: mân.
5. Gwas: 'Lle dechreua i?' Ateb: 'Wrth dy draed.'
6. Stori. Ffarmwr yn dweud wrth blant fod 1/- neu 6 cheiniog dan rai cerrig. (Ochr Llangwm.)
7. Defnyddio berfa neu drol (ar gyfer tir hade) neu fwced (ar gyfer tir gwndwn). Mynd â'r cerrig yn llwyth i bobl y ffordd. 1/6 y llwyth. Dygrega: crega. Cerrig gafael: cerrig mawr.
8. Rowlio tir gwair.

89. Tâp 2395

1. Hel degwm yn Llanefydd. Bwmbeili i'r tŷ. Troi cwch gwenyn i'r ystafell.
2. Stori. Gŵr bonheddig yn mynd i'r awyr mewn balŵn. Gyrrwr yn ei fygwth - gofyn am ei stad neu ei ladd. Y gŵr bonheddig yn gollwng y nwy. Disgyn yng nghanol y môr. Ymladd. Y gŵr bonheddig yn ennill. Croeso gan wraig yn yr Almaen. Adre i Lundain. (Stori gan Hugh Evans.)
3. Pren stric.
 - a. Saer yn ei wneud. Pris 1/- i 1/6. Pren derw. Bwlch yn ei flaen.
 - b. Hanes Dafydd Gil, Y Gyffylliog - dim yn hogi. (Gil: hanner glasiad.)

